

Adroddiad Profiad Ymwelwyr a Hygyrchedd: Medi 2024



Briff

Datblygu canllawiau ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) ac Amgueddfa Cymru ar:

1. Lefel sylfaenol o wasanaeth mewn lleoliadau'r celfyddydau ac Amgueddfa Cymru ar gyfer pobl F/fyddar, ag anabledd corfforol, amhariad ar y golwg ac ag anableddau dysgu / niwroamrywiol yng Nghymru.
2. 'Nod barcud' tair haen o safonau mewn lleoliadau'r celfyddydau ac Amgueddfa Cymru ar gyfer pobl F/fyddar, ag anabledd corfforol, amhariad ar y golwg a phobl ag anableddau dysgu / niwroamrywiol yng Nghymru, y gall y lleoliadau hyn weithio tuag atynt a'u gweithredu.

Tîm Ymchwil

- **Richie Turner:** Ymgynghorydd Arweiniol ac Ymchwilydd a Rheolwr Prosiect
- **Trevor Palmer:** Ymgynghorydd Anabledd Corfforol ac Anabledd Dysgu
- **Jonny Cotsen:** Ymgynghorydd B/byddar
- **Chloe Clarke:** Ymgynghorydd amhariad ar y golwg
- **Jon Luxton:** Cynghorydd Anabledd ac Ymgynghorydd Polisi Allanol
- **Lyndy Cooke:** Dirprwy Reolwr Prosiect a Rheolwr Cymorth Mynediad
- **Cooked Illustrations:** Darluniau
- **Ffilmiau** UCAN Productions ac Arcadian Owls Productions.

Methodoleg:

- Trafodaethau grŵp ffocws:
 - Ailgysylltu ac ymgynghori â chlybiau B/byddar a phobl F/byddar ar draws Cymru (trwy ein rhwydweithiau ac ymchwil presennol): 4 sesiwn yn cynnwys 5 o bobl o leiaf (targed 20)
 - Ailgysylltu ac ymgynghori â sefydliadau a arweinir gan bobl anabl a chymorth anabledd a phobl anabl ar draws Cymru (trwy ein rhwydweithiau ac ymchwil presennol): 4 sesiwn yn cynnwys 5 o bobl o leiaf (targed 20)

- Ailgysylltu ac ymgynghori â sefydliadau a arweinir gan bobl anabl a chymorth anabledd dysgu a phobl ag anabledd dysgu ar draws Cymru (trwy ein rhwydweithiau ac ymchwil presennol): 4 sesiwn yn cynnwys 5 o bobl o leiaf (targed 20)
- Ymgysylltu ac ymgynghori â sefydliadau a arweinir gan bobl ag amhariad ar y golwg a chymorth amhariad ar y golwg a phobl ag amhariad ar y golwg ar draws Cymru (trwy ein hymgynghorydd ag amhariad ar y golwg):4 sesiwn o 5 o bobl o leiaf (targed 20).
- Nodi modelau tebyg presennol: Rydym yn ymwybodol bod sefydliadau eraill wedi datblygu cynlluniau 'nod barcud' y gallwn ddysgu ohonynt a'u haddasu
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid:
 - Disability Arts Cymru
 - Creu Cymru

Yr Ymrwymiad Ymchwil a Gyflawnwyd hyd yma:

- Trafodaethau grŵp ffocws: gweler dadansoddiad manwl o gyfweiliadau isod

Data ar y rhai a arolygwyd

ND = Niwroamrywiol

PD = Anabledd corfforol

HI = Trwm eu clyw

VI = Amhariad ar y golwg


MD = Anableddau lluosog

SW = Gweithiwr Cymorth


TABL CASGLIADAU CAM 2 ADRAN 1	ND	PD	HI	VI	M	S	CYFANSWM	YN	CANRAN A
					D	W		ERBYN Y	GYFLAWNWYD
								TARGED	
Mewnbwn cyfweleion i grwpiau ffocws	21	17	19	18	12	7	94	80	117.50%
Nifer y cyfweiliadau corfforol	21	17	18	15			71	80	88.75%
Nifer y cyfweleion a drefnwyd wedi canslo neu heb droi i fyny							1 6	80	11.25 %
Nifer y sesiynau grŵp ffocws							19	16	118.75%

Nifer y cyfweleion ag anableddau lluosog	12	12	71	16.90%
Nifer y cyfweleion sydd â rôl gefnogol		7	71	9.86
Cyfweleion BAME ar draws Cymru		5	71	7%
Lleoliadau Daearyddol				
Gogledd Cymru		7		10%
Caerdydd		26		37%
De-ddwyrain Cymru		18		24%
De-orllewin Cymru		16		23%
Canolbarth Cymru		4		6%
Cyfanswm		71		100%


Canrannau o grwpiau ffocws a gyfwelwyd




O gyfanswm y cyfweleion - adnabod y rhai ag anableddau lluosog




Canrannau o'r prif grwpiau anabledd a arolygwyd gan gynnwys anableddau lluosog a gweithwyr cymorth a gyfwelwyd



Lleoliadau daearyddol y cyfweleion



Cymharu Ystadegau Cymru Swyddogol ac Ehangu Stats Ymgysylltu Grwpiau ethnig



Hwyluso:

- Gofynnwyd i'r hwyluswyr ganolbwyntio eu trafodaethau ar y 9 thema allweddol a nodwyd gennym o Gam 1, sef pam nad yw pobl F/fyddar, anabl a niwroamrywiol yn mynychu neu yn mynychu digwyddiadau'r celfyddydau ac Amgueddfa Cymru yn anaml.
 - Gofynnwyd i ymatebwyr ystyried y safonau gwasanaeth gofynnol, derbyniol y byddent yn eu disgwyl mewn perthynas â phob un o'r 9 thema. Mae hyn wedi arwain at o leiaf 10 maes gwasanaeth i'w hystyried ar gyfer lleoliadau'r celfyddydau ac Amgueddfa Cymru.
1. Dod i wybod am ddigwyddiad, lleoliad neu Amgueddfa Cymru ac archebu tocynnau (mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys sylwadau am gerdyn Hynt a thystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r angen i roi menter Cerdyn Mynediad i'r Celfyddydau y DU ar waith cyn gynted â phosibl):
- Cyflwyniad: Mae'n debyg bod y pwnc hwn wedi arwain at fwy o drafodaeth nag unrhyw un arall. Roedd rhwystredigaeth o ran methu ag archebu tocynnau ar-lein o hyd, diffyg marchnata hygyrch a'r diffyg gwybodaeth hygyrchedd mynych y daethpwyd o hyd iddi'n hawdd yn allweddol i'r agwedd hon ar ddyfeisio set o safonau gofynnol.
 - Dylai gwefannau ar gyfer lleoliadau ac Amgueddfa Cymru fod yn union yr un fath ag ar gyfer gwestai, gyda'r system archebu ar-lein nad yw'n hygyrch yn union yr un fath er hwylustod i'w defnyddio fel ag ar gyfer gofynion archebu hygyrch.
 - Gwneud yr holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd yn gyfeillgar i bobl anabl, yn enwedig ar gyfer pobl ag amhariad ar eu golwg, gan fod gan ffurflenni archebu gyferbyniadau lliw yn aml sy'n gallu ei gwneud hi'n anodd eu darllen.
 - Yn syml, dylai deunyddiau marchnata gynnwys yr holl wybodaeth am fynediad, gan fod hynny'n cymryd y cyfrifoldeb oddi ar bobl anabl i ddod o hyd i'r wybodaeth hon ac yn rhoi'r cyfrifoldeb ar leoliadau ac Amgueddfa Cymru i restru'r wybodaeth hon yn gywir.
 - Gofynnodd llawer o ymatebwyr a oedd lleoliadau ac Amgueddfa Cymru yn estyn allan yn uniongyrchol i sefydliadau cymorth anabledd lleol megis Mencap neu Sight Life i farchnata eu digwyddiadau hygyrch penodol? Oherwydd bod ar sail argymhellion ymhlith grŵp neu gymuned anabledd penodol yn aml yn gryf a dywedodd pawb fod yn well ganddynt fynd mewn grŵp mwy os yn bosibl.
 - Mae systemau archebu yn aml yn gymhleth. Dylent ddweud wrthynt yn awtomatig pa mor hygyrch yw digwyddiad a bod mor syml â phosibl i'w ddefnyddio. A yw systemau tocynnau swyddfa docynnau yn profi eu meddalwedd gyda phobl anabl cyn iddynt gael eu defnyddio? Os felly, a ydynt yn profi gyda phob anabledd?
 - Gall fod yn anodd ei gwneud yn ofynnol i bobl ag amhariad ar eu golwg archebu dros y ffôn, er enghraifft os gofynnir i chi restru rhif eich cerdyn talu neu os ydych yn ceisio nodi'r rhifau ar-lein. A all lleoliadau gadw'r

archeb a chaniatáu i gynulleidfaoedd ag amhariad ar eu golwg dalu pan fyddant yn codi'r tocynnau ar y diwrnod?

- Nid yw gwefannau lle gallwch ddewis ble rydych yn eistedd yn gyfeillgar i bobl ag amhariad ar y golwg ac yn aml maent yn amhosibl eu defnyddio ar gyfer pobl ag amhariad are u golwg gan nad oes ganddynt y gallu i reoli llais, ac nid ydynt yn cael eu gweithredu gan ddarllenwyr sgrin ychwaith.
- Yn aml nid yw'n glir a oes gostyngiadau ar brisiau tocynnau i bobl anabl tan ar ôl i chi gwblhau'r archeb. At hynny, erbyn hyn mae cymaint o wahanol gynlluniau disgownt a chymorth (lleoliad penodol neu awdurdod lleol neu genedlaethol) fel y gall fod yn flinedig neu'n ddryslyd ceisio canfod pa un i'w ddefnyddio. Byddai un cynllun unigol o gymorth mawr (DS mae Llywodraeth y DU wedi rhoi'r golau gwyrdd ar ddatblygiad menter Cerdyn Mynediad i'r Celfyddydau y DU yn eu Strategaeth Anabledd ddiweddaraf ac mae'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo i ddatblygu hyn ac mae gan Gymru eisoes ei chynllun cerdyn disgownt cydymaith ei hun - Hynt).
- Dylai deunyddiau marchnata fod ar gael ym mhob fformat hygyrch: BSL, fersiynau sain, braille, Easyread, print bras, ac ati.
- I ofalwyr, yn aml nid oes ganddynt ddigon o amser i ymchwilio i ba ddigwyddiadau sy'n addas ar gyfer pob unigolyn, felly byddai e-bost marchnata sy'n manylu ar ddigwyddiadau, gan gynnwys pa mor hygyrch ydynt, yn hynod fuddiol. Er, mae rhai lleoliadau sydd â negeseuon e-bost marchnata gyda'r math hwn o wybodaeth yn gwneud archebu wedi hynny'n gymhleth iawn archebu trwy fynnu bod pobl anabl yn archebu dros y ffôn yn unig (sy'n annifyr neu'n amhosibl i lawer ei wneud yn hawdd).
- Mae Amgueddfa Cymru a lleoliadau sy'n dibynnu'n llwyr ar wefannau am eu gwbyodaeth farchnata yn eithrio llawer o bobl anabl. Mae cylchlythyrau e-bost yn boblogaidd iawn gyda llawer o bobl anabl.
- Mae gan rai pobl niwroamrywiol amnesia topograffig (nid yw eu hymennydd yn gallu cofio'n weledol ble y buont o'r blaen) felly byddai dosbarthu map ffisegol o gyfleusterau ym mhob lleoliad, yn enwedig ar gyfer Amgueddfa Cymru, o gymorth mawr iddynt.
- Rhaid i'r holl wybodaeth fod yn glir iawn ynghylch pa fath o hygyrchedd y mae pob lleoliad neu Amgueddfa Cymru yn ei ddarparu, e.e. dolen glyw, manau synhwyraidd neu dawel, nid dim ond dweud 'rydym yn cynnig perfformiadau hygyrch'.
- Dylid cytuno ar godau a/neu liwiau penodol ar gyfer pob gofyniad hygyrchedd, e.e. addas ar gyfer awtistig ac oedolyn/pobl/plentyn; neu godau lliw ar gyfer gwasanaethau cymorth hygyrchedd e.e. ystafelloedd newid, dolenni clyw, manau tawel, ac ati.
- Mae angen ehangu'r cynllun Hynt i ddangos pob math o ofynion hygyrchedd, gyda symbolau neu ddelweddau amlwg ar gyfer pob categori. Cyfeiriwyd at Gerdyn Mynediad i'r Celfyddydau Attitude is Everything a'u

categoriâu a pha mor dda y mae'r cynllun hwnnw'n gweithio ar gyfer digwyddiadau cerddoriaeth fyw.

- Dylai bod gan bosteri (argraffedig a digidol) a phob postiad cyfryngau cymdeithasol gysylltiad uniongyrchol â systemau archebu hygrych, gan ei bod yn anodd mynd trwy wefannau, neu i Google, i ddod o hyd i leoliad neu ddigwyddiadau penodol.
- Llyfryn printiedig misol, wedi'i ysgrifennu yn Easyread, sy'n dangos beth sydd ymlaen ym mhob lleoliad yng Nghaerdydd (neu unrhyw ardal) ar gyfer pob grŵp o bobl anabl neu anghenion hygrychedd, e.e. niwroamrywiol. Mae cylchlythyrau e-bost hefyd yn ddefnyddiol, ond mae'n well gan lawer o bobl dderbyn rhywbeth yn y post, y maent yn ei ddarllen yn eu hamser eu hunain gartref.
- Gall Cerdyn Hynt fod yn dda ar gyfer dod o hyd i ddigwyddiadau addas, ond mae'r rhan fwyaf o aelodau'n ei chael hi'n anodd iawn archebu gan ddefnyddio cerdyn Hynt ar hyn o bryd.
- Mae cylchlythyrau e-bost sy'n hawdd eu llywio yn boblogaidd gyda llawer o bobl anabl, ond yn aml mae angen i bobl anabl wirio gwybodaeth dros y ffôn hefyd. Mae angen i leoliadau ac Amgueddfa Cymru sylweddoli bod ffonio llinell ffôn mynediad yn aml yn cymryd amser hir iawn cyn i chi fynd drwodd at berson, bod y galwadau hyn yn costio llawer o arian i bobl anabl os oes rhaid iddynt aros mewn ciw hir. Dylid creu system galw'n ôl fel mai'r lleoliad sy'n talu costau galwadau ffôn. Dylai system negeseuon testun neu WhatsApp fod yn ei lle ar gyfer pobl F/fyddar os gofynnir am hynny.
- Mae llawer o bobl anabl yn dweud nad yw deunyddiau marchnata (yn ddigidol ac mewn print) yn aml yn cynnwys unrhyw wybodaeth hygrychedd sy'n amlwg iawn ac yna os ceisiwch edrych ar eu gwefan eto mae'n anodd dod o hyd i'r wybodaeth hon. Byddai system o ddelweddau y cytunwyd arni'n syml ar gyfer pob gofyniad hygrychedd ar bob cyhoeddusrwydd yn gwneud gwahaniaeth mawr. Roedd llawer o bobl ag amhariad ar y golwg hefyd eisiau arwydd neu ddelwedd syml i ddweud bod y digwyddiad hwn yn sain-ddisgrifiad.
- Mae llawer o sefydliadau'r celfyddydau ac Amgueddfa Cymru wedi anghofio bod hysbysebu ar radio lleol yn ffordd dda o gyrraedd pobl ag amhariad ar y golwg a hefyd yn ffordd dda o gyrraedd rhai pobl niwroamrywiol.
- Ni ddylai gwybodaeth mynediad i bobl ag amhariad ar y golwg gynnwys yn unig a oes sain-ddisgrifiad, ond hefyd a oes gan y lleoliad aelod o staff i'ch helpu i gyrraedd eich sedd a sut i ddod o hyd i aelod o staff i ddangos i chi ble mae'r toiledau neu'r bar.
- Soniodd llawer o'r ymatebwyr am fanteision taith rithwir neu gynllun llawr, sydd ar gael ar YouTube neu ar wefan Amgueddfa Cymru, fel y gallant wirio ble i fynd neu ble mae'r cyfleusterau neu pa seddi y byddwch yn eistedd ynddynt cyn ymweld. Mae technoleg realiti rithwir hefyd ar gael yn haws felly gallai lleoliadau ac Amgueddfa Cymru gomisiynu

teithiau Realiti Rhithwir yn symlach o lawer nag ychydig flynyddoedd yn ôl. Mae'r dechnoleg hon eisoes wedi'i defnyddio'n llwyddiannus mewn gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, felly ni ddylai fod yn anodd ehangu hyn i'r sector diwylliannol

(<https://www.bevancommission.org/projects/using-virtual-reality-to-improve-patient-cancer-treatment-experience/>).

- Awgrymodd nifer o bobl hefyd y dylid defnyddio fideos i farchnata digwyddiadau gan fod disgrifiadau testunol yn gallu bod yn anodd eu deall neu eu dychmygu. Gallai clipiau fideo o'r hyn y byddant yn ei weld eu helpu i wneud penderfyniadau'n haws, ond dylai'r fideos hyn gael eu cymeradwyo gan sefydliad i bobl anabl cydnabyddedig, a'u his-deitlo gyda BSL hefyd.
- Byddai teithiau cyffwrdd neu deithiau â sain-ddisgrifiadau yn annog mwy o bobl ag amhariad ar y golwg a phobl ag anabledau dysgu i ymweld ag Amgueddfa Cymru a lleoliadau yn amlach. Dywedodd nifer o bobl fod y Daith Gyffwrdd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn fuddiol iawn. Rhoddodd un person enghraifft o ddigwyddiad cyffwrdd a theimlo o wisgoedd dawnswyr fel eu bod yn gallu dychmygu'r gerddoriaeth yn well wrth glywed y gerddoriaeth a'r sain-ddisgrifiad.
- Anogwyd Amgueddfa Cymru i gynnal teithiau neu arddangosfeydd mwy cyffwrddol a dod o hyd i wrthrychau y mae pobl ag amhariad ar y golwg yn cael eu cyffwrdd (hyd yn oed os na chaniateir i bobl eraill wneud hynny). Byddai teithiau thema a theithiau wedi'u trefnu ar gyfer pobl ag amhariad ar y golwg hefyd yn debygol o arwain at niferoedd uwch o ymwelwyr.
- Dywedodd cyfran uchel o'r ymatebwyr eu bod naill ai ddim yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol neu'n ei chael hi'n anodd olrhain hyn o ran dod i wybod am ddigwyddiadau'r celfyddydau; yn gyson mae'n well ganddynt gyfathrebiadau e-bost. Mae llawer yn mynd ati i chwilio am restrau postio addas, ond mae diffyg cysondeb gwybodaeth hygyrchedd yn rhwystredig iawn.
- Mae'r gallu a'r profiad o brynu tocynnau yn aml yn dibynnu ar eich mynediad at dechnoleg a'ch sgiliau technoleg. Er enghraifft yn 2021, tra bod 78% o bobl anabl yn dweud bod cael mynediad at dechnolegau digidol yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn (<https://bighack.org/accessibility-and-disability-facts-and-figures/>) mae hynny'n golygu nad yw 1 mewn 5 yn gweld technoleg yn ddefnyddiol, dim mynediad at dechnoleg o hyd neu ddim yn gwybod sut i'w ddefnyddio'n hyderus.
- Gall lleoliadau neu Amgueddfa Cymru sy'n datgan eu bod yn 'hollol hygyrch' olygu gwneud rhagdybiaethau sy'n anghywir. Beth yw'r diffiniad gwirioneddol o 'hollol hygyrch'? Mae'n dderm sy'n cael ei ddefnyddio'n anghywir weithiau gan ei fod yn awgrymu y darperir ar gyfer yr holl anghenion hygyrchedd, ond mewn gwirionedd, yn aml, dim ond y prif rai y mae'n darparu ar eu cyfer, fel rampiau cadair olwyn a dolenni clyw.

- Pe bai gan yr holl gyhoeddusrwydd god QR a oedd yn mynd â chi'n uniongyrchol at y wybodaeth hygyrchedd (ar gael mewn fformatau lluosog) digwyddiad neu Amgueddfa Cymru, byddai'n help garw i lawer o bobl anabl, oherwydd dywedodd rhai ymatebwyr nad ydynt yn ceisio archebu lle nac ymweld ag Amgueddfa Cymru os na allant ddod o hyd i'r wybodaeth mynediad yn hawdd.
- Dylai fod gan leoliadau ac Amgueddfa Cymru linell ffôn bwrpasol - llinell gymorth mynediad - y gall person anabl ei ffonio (neu anfon neges destun os yw'n F/fyddar), gyda neges wedi'i recordio sy'n rhestru'r holl wasanaethau hygyrch y mae'n eu cynnig fel arfer. Yna mae person yn gwybod a ddylid trafferthu chwilio am ddigwyddiadau penodol hygyrch yno ai peidio.
- Nid yw marchnata ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael ei ddefnyddio gan lawer o bobl ag amhariad ar y golwg gan nad yw'r rhan fwyaf wedi'u 'galluogi gan ddarllenwyr sgrin'. Mae'n anodd dod o hyd i wybodaeth farchnata cynnwys sain addas. Nodwyd bod postiadau CD o wybodaeth farchnata sain gan Venue Cymru yn wasanaeth da rai blynyddoedd yn ôl ond mae'n ymddangos bod hyn wedi dod i ben.
- Awgrymodd llawer o bobl ag amhariad ar y golwg gylchlythyrau e-bost wedi'u recordio a oedd yn amlygu pa ddigwyddiadau oedd â sain-ddisgrifiadau a'u dyddiadau penodol, gyda dolenni i archebu tocynnau'n hawdd. Ar gyfer y bobl ag amhariad ar y golwg hynny na allant ddefnyddio sgrin-ddarllenwyr yn hawdd (e.e. y rhai nad oes ganddynt yr apiau hynny ar eu ffonau clyfar) yna byddai fersiwn CD neu Braille yn ddewis arall. Mae yna gydnabyddiaeth y bydd creu cynnwys marchnata sain yn cynyddu costau i leoliadau ac Amgueddfa Cymru a bod angen ariannu hyn yn iawn er mwyn i hyn ddigwydd.
- Gall fod yn anodd cael gafael ar wybodaeth gyda sgrin-ddarllenwyr gan nad yw rhai fformatau e-bost yn gallu gweithio'n iawn, e.e. os ydynt wedi'u fformatio'n golofnau fel y mae llawer o e-byst HTML, ac mae rhai fformatau gwefan gyda blociau dylunio rhagosodedig hefyd yn achosi problemau. Dylai fod yn ofynnol i bob sefydliad y celfyddydau ac Amgueddfa Cymru fod â gwybodaeth farchnata sgrin ddarllenadwy lawn ar eu gwefannau a'u cyfathrebiadau e-bost.
- Byddai cydweithio â gwasanaethau eraill megis llyfrgelloedd neu wasanaethau gofal iechyd i ddarparu gwybodaeth berthnasol am ddigwyddiadau hygyrch penodol yn ffordd syml o gyrraedd mwy o bobl anabl. Byddai hyn hefyd yn cynorthwyo gofalwyr a gweithwyr cymorth sy'n gorfod dod o hyd i ddigwyddiadau addas. Byddai canllawiau wedi'u targedu sy'n rhestru'r holl ddigwyddiadau addas yn lleol ar gyfer pob prif grŵp hygyrchedd/anabledd yn helpu, yn enwedig os gallai'r rhain gynorthwyo'r rhai nad ydynt yn gyfathrebwyr ar lafar gyda digon o luniau i benderfynu pa ddigwyddiadau yr hoffent eu mynychu.
- Mae gan sinemâu system archebu ar-lein (Cerdyn CEA ar gyfer tocynnau cydymaith) felly pam nad oes gan leoliadau'r celfyddydau ac Amgueddfa

Cymru hefyd systemau archebu ar-lein sy'n ystyried anghenion mynediad? (DS Mae Cerdyn Mynediad i'r Celfyddydau y DU yn cael ei ddatblygu).

- Pe bai lleoliadau ac Amgueddfa Cymru yn gweithio gyda grwpiau anabledd lleol yn amlach i drefnu gwibdeithiau grŵp, yn enwedig ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ac eraill â niwroamrywiaeth, yna byddai presenoldeb yn cynyddu.
- Gorau po gyntaf y rhybudd y gall lleoliadau ei roi am ddigwyddiadau hygyrch gan fod llawer o ofalwyr yn wirfoddolwyr ac angen digon o amser i gynllunio pethau'n iawn.
- Wrth archebu ar-lein neu gofrestru ar gyfer cylchlythyr e-bost mae gan y rhan fwyaf o leoliadau ac Amgueddfa Cymru categorïau gorfodol ar eu ffurflenni sy'n cynnwys rhif ffôn. Ni all llawer o bobl F/byddar a Thrwem eu Clyw ddefnyddio'r ffôn felly nid ydynt yn berchen ar un. Ni ddylai fod yn orfodol a rhaid bod modd llenwi'r ffurflen heb gwblhau'r cwestiwn hwnnw.
- Awgrymwyd y cysyniad o gronfa ddata ganolog a gwefan, yn amlwg yn gwbl hygyrch, ar gyfer digwyddiadau yng Nghymru a'r DU lawer gwaith. A fydd Cerdyn Mynediad i'r Celfyddydau y DU yn gallu agregu'r dyddiad hwn o'r holl wefannau sy'n rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau iddo? Ac nid gofynion mynediad pob un o aelodau'r cerdyn yn unig, ond rhestru'r holl ddigwyddiadau hygyrch yn categorïau anabledd.

2. A ddylai lleoliadau ac Amgueddfa Cymru fod yn fwy gonest ynghylch pa mor hygyrch yw eu digwyddiadau a'u gwasanaethau mewn gwirionedd?

- Cyflwyniad: Roedd Adroddiad Cam 1 yn dangos yn glir nad yw llawer o bobl anabl yn ymddiried yn yr hyn a ddarllenant neu a ddywedir wrthynt am leoliad neu hygyrchedd Amgueddfa Cymru mewn gwirionedd. Mae angen i unrhyw lefel ofynnol o wasanaeth ddangos bod gonestrwydd yn cael ei roi yn gyntaf ac yn bennaf ym mhob cyfathrebu â phobl anabl.
- Yr adborth cyffredinol yw Oes, mae angen i leoliadau ac Amgueddfa Cymru fod yn fwy gonest. Prin fod unrhyw un o'n hymatebwyr wedi cyfeirio at ofynion cyfreithiol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb fel rhesymau pam fod yn rhaid i bob lleoliad ac Amgueddfa Cymru gael gwasanaethau a digwyddiadau cwbl hygyrch. Mae cydnabyddiaeth a dealltwriaeth y dylent fod yn anelu at gael ystod mor eang o ddigwyddiadau hygyrch, ond bod gwahaniaeth hefyd rhwng yr hyn a ddywedir wrth bobl anabl neu'r wybodaeth a roddir a'r realiti gwirioneddol pan fyddant yn mynychu digwyddiad neu Amgueddfa Cymru.
- Mae lleihau'r bwlch rhwng disgwyliad a realiti yn hanfodol os ydym am wella ymddiriedaeth rhwng pobl anabl a lleoliadau. Roedd cael eu siomi neu eu cam-hysbysu gan leoliad am hygyrchedd yn un o'r prif resymau dros bresenoldeb isel, gan fod y sefyllfaoedd hynny'n peri i bobl beidio â mentro mynd eto ac, wrth gwrs, os ydynt yn cael profiad gwael maent yn debygol iawn o ddweud wrth eu ffrindiau i gyd, y mae'n debygol bod llawer

ohonynt hefyd yn anabl. Mae'r dyfyniadau isod yn dystiolaeth gref o'r safbwynt hwn.

-*"Dylai lleoliadau fod yn gwbl onest am yr hyn y gallant ei ddarparu".*

- *"Byddai'n boenus darllen hwn, ond o leiaf byddai hyn yn wirionedd".*

- *"Byddai'n well gen i wybod hynny na pheidio â gwybod os nad yw'n addas, gwybodaeth onest yw'r allwedd".*

-*"Dylai lleoliadau fod yn gwbl onest am eu hygyrchedd sy'n fy helpu i wneud penderfyniad a fyddaf yn cael amser da ai peidio?"*

- *"Dylai pawb fod yn gwbl onest am hyn".*

- *"Yn hollol, dylai lleoliadau fod yn onest am yr hyn y gallant ac na allant ei ddarparu - dylai fod ganddynt restr sylfaenol o bethau y gellir eu cyflawni. Er enghraifft, os yw lleoliad yn dda ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn, ond nad yw eu cyfleusterau ar gyfer pobl ag amhariad ar y clyw yn wych, ond eu bod yn dweud eu bod yn cydnabod bod angen iddynt eu huwchraddio ac yn gobeithio gwneud hyn erbyn X (dyddiad), yna mae hynny'n well na dweud dim byd".*

- *"Dylai lleoliadau weithio i system debyg i alergeddau bwyd lle mai'r peth cyntaf maen nhw'n ei ddweud yw a oes gennych chi unrhyw anghenion hygyrchedd ac yna bod yn gwbl dryloyw a chyfaddef o'r cychwyn cyntaf os na allant ddarparu ar gyfer eich anghenion".*

- *"Ni ddylai lleoliadau fod yn cuddio pethau".*

- *"Y prif beth yw bod yn onest, dim ond dweud na allwn wneud hynny, sefydlu perthynas, cadw'r sgwrs i fynd".*

- *"Mae gonestrwydd gan bawb yn bwysig iawn. Os byddant yn gwneud llanast dylent ymddiheuro i dawelu meddwl y person ac yna cynnig gostyngiad neu docynnau am ddim iddynt ddod yn ôl eto".*

- *"Mae fel mynd ar wyliau ac yna rydych chi ar ganol safle adeiladu. Mae popeth yn edrych yn berffaith yn y lluniau ac yna mae yna graeniau a chloddwyr a sŵn a'ch gwyliau wedi'u difetha. Mae ychydig yr un fath ag ymweld â theatr. Yn bendant, mae angen iddyn nhw fod yn onest".*

- *"Mae angen iddyn nhw fod yn sicr beth maen nhw'n ei gynnig mewn gwirionedd. Dw i'n meddwl nad yw llawer o leoedd yn sicr o'r hyn y maent yn ei gynnig. Mae angen iddynt fod yn glir os yw'r person hwn sydd â'r anabledd hwn yn dod, dyma'r hyn y gallai fod ei angen arnynt, ac os yw'r person hwn yn dod dyma'r hyn y gallai fod ei angen arno. Oherwydd fel arall rydyn ni'n dod yn ôl at restr o bethau mynediad safonol sylfaenol sydd wedi'u hysgrifennu".*

-*"Weithiau rydych chi'n dod i leoliad neu'n eu ffonio ac maen nhw'n dweud 'o na, allwn ni ddim gwneud hynny' ac yna'n sydyn mae popeth maen nhw wedi'i ddweud amdany'n nhw eu hunain, pa mor hygyrch a chyfeillgar i bobl anabl yn diflannu mewn amrantiad."*

- *"Nid yw ond yn deg nodi bod rhywle yn hygyrch yn unig drwy ychydig o stepiau/grisiau".*

- "Ie mae'n debyg y byddwn i eisiau gwybod, gan feddwl am y peth, byddech chi eisiau gwybod un ffordd neu'r llall, mae'n arbed gwastraffu'ch amser ac arian".

- "Anaml iawn y byddaf yn trafferthu darllen datganiadau mynediad a gyhoeddir ar wefannau bellach gan eu bod yn aml yn hen ffasiwn, yn ddiystyr neu yn syml ni ellir ymddiried ynddynt".

- Mae dryswch hefyd ynghylch beth yw lleoliad hygyrch neu anhygyrch neu Amgueddfa Cymru mewn gwirionedd. Mae rhai ymatebwyr wedi cael gwybod bod lleoliad yn anhygyrch oherwydd bod ganddo risiau, ond os nad ydych yn defnyddio cadair olwyn efallai y bydd yn hygyrch i berson anabl arall. "Felly dw i'n meddwl mai gonestrwydd llwyr yw'r polisi gorau yn bendant, dim ond bod yn glir wrth roi gwybodaeth i ni".
- Roedd llawer llai o gytundeb ynghylch a yw'n iawn ai peidio i rai digwyddiadau fod yn benodol hygyrch i rai pobl anabl, e.e. perfformiad wedi'i arwyddo drwy ddefnyddio BSL ar gyfer pobl F/byddar, ond nid hefyd i ddarparu sain-ddisgrifiad ar gyfer pobl ag amhariad ar y golwg. Roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod lleoliadau ac ni all Amgueddfa Cymru ddarparu ar gyfer yr holl anghenion hygyrchedd drwy'r amser, ond dadleuodd eraill yn gryf yn erbyn darparu ar gyfer 'categoriâu' penodol yn unig. Mynediad i bawb - drwy'r amser.
- Cododd problem arall gyda digwyddiadau'n cael eu hysbysebu fel rhai hygyrch, megis sain-ddisgrifiadau, ond pan maent i fod i ddigwydd mewn gwirionedd, dywedodd y lleoliad nad oedd digon o alw ac felly nid yw wedi archebu'r darparwr mynediad fel yr hysbysebwyd ac yn hollbwysig nid ydynt wedi hysbysu pobl sydd wedi archebu lle. Mae hyn yn amlwg yn annerbyniol, ond y diffyg gonestrwydd sy'n creu problemau yn y dyfodol ac mae angen i'r safonau gwasanaeth gofynnol sy'n cael eu dyfeisio fynd i'r afael â'r pwynt anodd hwn yn glir.

3. Mannau ar wahân yn Amgueddfa Cymru a lleoliadau ar gyfer pobl anabl

- Cyflwyniad: Mae cryn dipyn o gynnydd wedi'i wneud yn ddiweddar i ddarparu perfformiadau diogel, tawel a hamddenol a mathau eraill o ddigwyddiadau wedi'u teilwra a all gynnwys pobl niwroamrywiol. Gellir creu manau eistedd ar wahân fel bod pobl yn teimlo'n gyfforddus mewn awditoriwm (er enghraifft i sicrhau nad yw pobl yn poeni am siarad yn uchel yn ystod sioe neu fynd yn bryderus yng nghanol cynulleidfa fawr). Mae'r gwelliannau hyn i'w croesawu, wrth gwrs, ond maent yn aml yn methu â meddwl am ffactorau y tu allan i'r prif ddigwyddiad.
- Dylai lleoliadau greu manau diogel a thawel neu ystafelloedd synhwyraidd lle gall pobl niwroamrywiol fynd cyn perfformiad, yn ystod egwylliau ac wedi hynny. Does ond rhaid meddwl pa mor brysur a swnllyd y gall cyntedd theatr fod i sylweddoli bod meddwl am y perfformiad ei hun yn unig yn methu'r pwynt o geisio cyrraedd cynulleidfaoedd niwroamrywiol. Mae'n rhaid iddo fod yn brofiad hollol ddiogel a digynnwrf o'r dechrau i'r diwedd.

- Dylai fod gan Amgueddfa Cymru, yn enwedig yr amgueddfeydd cenedlaethol mawr yng Nghymru, ystafelloedd diogel, tawel, synhwyrdd oherwydd yn aml gall maint yr adeiladau olygu bod pobl niwroamrywiol yn ofni mynd ar goll neu ofn torfeydd mawr.
- Roedd yr hyn i alw gofod o'r fath wedi creu safbwyntiau rhanedig. Nid oedd rhai pobl yn hoffi'r termau ystafell synhwyrdd neu ofod diogel ac awgrymwyd 'Ystafell ymlacio'.
- Roedd cael digon o le i gŵn tywys i orwedd ac ymlacio, efallai gyda phowlen o ddŵr, mewn man tawel i ffwrdd oddi wrth gynulleidfaedd mawr a thyrfaedd yn gais cysylltiedig arall. Yn syml, nid oes gan lawer o leoliadau'r celfyddydau ddigon o le i berson eistedd gyda chi mawr wrth ei draed.
- Gofynnodd pobl F/byddar a Thwrwm eu Clyw hefyd am le tawel, diogel gan eu bod weithiau'n sensitif iawn i synau torfeydd, e.e. tinnitus neu hyperacusis. Fodd bynnag, mae angen herio atebion difeddwl i'r broblem hon mewn gwirionedd megis rhoi'r person yn y blwch goleuo.
- Roedd pobl eraill eisiau i leoliadau'r celfyddydau gynnig gwasanaeth tebyg i leoliadau cerddoriaeth fyw, sy'n aml yn darparu llwybrau ar wahân fel nad oes rhaid i chi giwio gyda'r prif gynulleidfaedd ac yna dewis a ydych am eistedd mewn man dynodedig, e.e. llwyfan gwyllo. Mae stadia chwaraeon yn cynnig gwasanaethau a chyfleusterau tebyg. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn gwrthwynebu'r hyn a welent fel neilltuo gan eu bod am gael eu trin yn gyfartal.
- Gwnaed cymariaethau â sectorau eraill megis meysydd awyr, sydd weithiau'n darparu ystafelloedd tawel, diogel, gan nifer o bobl.
- Codwyd y diffyg digwyddiadau ymddangosiadol ar gyfer plant niwroamrywiol o gymharu ag oedolion gan nifer sylweddol o bobl hefyd.
- Hyd yn oed os caiff y mannau hyn eu creu, mae'n hanfodol bod lleoliadau a'u staff yn gwneud pobl niwroamrywiol yn ymwybodol o sut i ofyn am fynediad i'r gofod, dylent fod yn hawdd dod o hyd iddynt (heb eu cuddio mewn mannau brawychus megis lleoliadau cefn llwyfan ymhell o doiledau hygyrch) a bod eu hargaeledd yn cael ei hysbysebu ochr yn ochr â gwasanaethau hygyrchedd eraill.

4. System adborth pwrpasol

- Cyflwyniad: Mae pobl anabl yn aml yn teimlo na wrandewir ar eu barn neu'n teimlo eu bod wedi'u cau allan o wneud penderfyniadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â nhw. Er eu bod yn croesawu ymgynghori eto ynghylch sut i lunio safon ofynnol ar gyfer gwasanaethau i leoliadau'r celfyddydau ac Amgueddfa Cymru, hoffent i'r safonau hyn gynnwys system adborth barhaus hefyd.
- Cyflwyniad: Mae rhai o'r awgrymiadau ar gyfer y pwnc hwn braidd yn afrealistig ar hyn o bryd hyd nes y bydd lefelau cyllid sylweddol uwch yn cael eu darparu i leoliadau ac Amgueddfa Cymru er mwyn sicrhau gwell arferion yn y diwydiant, lefelau staffio Blaen y Tŷ uwch ac arferion

gwelliant parhaus. O'n hadroddiad cyntaf roedd yn gwbl amlwg nad yw'n bosibl cael mwy o fynediad i'r sectorau'r celfyddydau a threftadaeth ddiwylliannol heb fuddsoddiad sylweddol uwch. Ni fydd mwy o arian yn datrys yr holl faterion, mewn gwirionedd ni fydd yn creu newid heb ateb cyfannol, ond weithiau nid oes llwybrau byr i weithredu'r argymhellion hyn ac yn achos systemau adborth, mae buddsoddi mewn mwy o adnoddau staffio yn rhagofyniad.

- Er enghraifft, roedd llawer o ymatebwyr yn glir y dylid talu pobl anabl i roi eu hadborth gan eu bod yn darparu cyngor proffesiynol a fydd yn helpu Amgueddfa Cymru neu leoliadau'r celfyddydau i gynyddu cynulleidfaoedd a gwerthiant yn y tymor hir. Os nad yw taliad uniongyrchol yn bosibl yn y tymor byr yna dylid ystyried cymhellion eraill megis te neu goffi am ddim neu ostyngiadau ar ddigwyddiadau yn y dyfodol. Mae llawer wedi blino'n lân wrth roi adborth am gymaint o flynyddoedd, heb fawr ddim newidiadau amlwg yn cael eu gwneud. Anaml y mae lleoliadau neu Amgueddfa Cymru yn ymateb yn uniongyrchol i sylwadau a wneir ar gyfryngau cymdeithasol, yn aml am brofiadau gwael, felly nid yw llawer yn teimlo bod y dull hwnnw'n cyflawni'r canlyniadau yr oeddent wedi gobeithio amdanynt.
- Er bod gan rai lleoliadau weithdrefn adborth neu gwyno, dywedodd ymatebwyr yn aml nad oeddent yn cael unrhyw ymateb i'w hadborth, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol. Nid yw adborth ar-lein neu drwy e-bost yn addas ar gyfer llawer o bobl anabl ac yn aml maent yn chwilio am sgwrs yn hytrach na dull mwy gwrthdrawiadol.
- Mae llawer yn gweld sifftio trwy wefannau i geisio canfod sut i roi adborth yr un mor rhwystredig. Weithiau, dim ond darparu adborth cadarnhaol o brofiad gwych neu gefnogaeth wych y maent wedi'i dderbyn gan aelod o staff neu efallai feirniadaeth adeiladol yn unig yw hyn, ond y dybiaeth yw bod unrhyw adborth bob amser yn hollbwysig.
- Mae rhai wedi awgrymu y dylai pob person anabl, sydd wedi archebu lle yn gofyn am ryw fath o wasanaethau mynediad, dderbyn galwad ffôn neu ryw fath o gyfathrebiad yn awtomatig i ddarganfod eu profiad. Mae hwn yn 'ofyniad' mawr o leoliadau ar hyn o bryd. Efallai un i weithio tuag ato dros gyfnod y meini prawf Nod Barcud.
- Pe bai lleoliadau'n creu system adborth syml yna byddai mwy o bobl anabl yn ymweld â'r lleoliadau sydd wedi'u hadolygu'n dda. Roedd bron pob lleoliad yn nodi y gall adolygiadau gwael rwystro pobl yn ddiangen gan fod yr hyn sy'n effeithio ar un person yn wahanol i berson arall. Creu system adborth agored a theg yw'r mater allweddol yma.
- Dylid cysylltu'r system adborth â'r Cerdyn Hynt (a system Cerdyn Mynediad i'r Celfyddydau y DU yn y dyfodol).
- Dylid argraffu systemau adborth yn glir ar bob tocyn digwyddiad, e.e. 'Os ydych wedi cael problem heddiw ffoniwch y rhif hwn a byddwn yn dychwelyd eich galwad yn syth', neu mae gennych ddolen glir ar dudalennau gwefan archebu i borth adborth.

- Dylai fod gan Amgueddfa Cymru leoedd adborth haws i ymwelwyr, nid dim ond gofyn i bobl lenwi ffurflen ar eu ffordd allan ar y ddesg flaen (nad yw'n briodol i'r rhan fwyaf o bobl anabl, yn enwedig pobl ag anableddau dysgu). Byddai gosod y stondinau adborth cyffwrdd ar unwaith gydag amrywiaeth o wynebâu sy'n gwenu neu'n drist, fel sydd ganddynt mewn meysydd awyr neu orsafoedd gwasanaeth, yn ffordd syml i bobl niwroamrywiol roi adborth.
- Dylid ystyried adborth gan gynulleidfaoedd ac ymwelwyr anabl fel cael cipolwg ar eu gwasanaeth cwsmeriaid cyffredinol ac efallai un ffordd o sicrhau gwell adborth yw cyflogi pobl anabl i ymgysylltu â'r cwsmer fel hyn. Mae angen i'r systemau gynnwys pobl go iawn yn siarad â chwsmeriaid go iawn, nid yn unig yn dibynnu ar systemau TG awtomataidd. Byddai creu swyddi penodol fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer adborth yn sicrhau cysondeb ac yn sicrhau bod dysgu'n cael ei goladu, gan fod ymatebwyr yn aml yn teimlo bod eu hadborth yn cael ei anwybyddu neu ddim yn cael ei gyfleu i'r bobl gywir yn y lleoliadau. Mae angen i bobl anabl deimlo'n ddigon hyderus i roi adborth negyddol a gwybod eu bod yn cael eu clywed a bod ymatebion yn dod gan berson y maent yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddo. Awgrymodd eraill y dylid llogi sefydliad anabledd lleol i wneud y gwaith ymgysylltu adborth fel ei fod yn fwy gwrthrychol ac annibynnol.
- Rhaid i adborth gan gwsmeriaid anabl fod yn weladwy i bawb trwy eu gwefannau, ond rhaid i'r ffyrdd o ymateb fod yn gwbl hygyrch hefyd, megis Braille, recordiadau sain a BSL. Dylid annog pobl i ddefnyddio iaith syml fel bod pawb yn teimlo y gallant gyfrannu a bod pawb yn gallu deall y sylwadau, mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl ag anableddau dysgu. Gall diffyg hyfforddiant staff, gan rai pobl yn Amgueddfa Cymru a lleoliadau, arwain at gamddeall adborth. Nid aelod dibrofiad o staff Blaen y Tŷ yw'r person cywir i glywed adborth manwl neu gymhleth.
- Crëwch fformat tebyg i Trip Advisor ar gyfer adborth sydd hefyd yn galluogi adborth cadarnhaol i staff cynorthwyol. Mae angen i'r system fod yn ddigon hyblyg i unrhyw berson anabl allu ymateb, nid dim ond y rhai sy'n gallu ysgrifennu neu siarad yn hyderus. Er enghraifft, trwy gyfryngau cymdeithasol fel Instagram gallai pobl roi adborth gyda lluniau hapus neu drist yn lle fformatau holiadur cymhleth. Mae angen casglu tystiolaeth ac yna ei chyhoeddi'n gyhoeddus gan fod nifer o ymatebwyr wedi dweud yr hoffent ddarllen adolygiadau adborth ar-lein a gwneud dewisiadau ynghylch pa leoliadau i fynd iddynt yn seiliedig ar yr adolygiadau hynny. Cydnabuwyd, os cyflwynir adolygiad gwael iawn, y dylid rhoi cyfnod byr o amser i leoliadau ymateb yn breifat (rhag ofn bod hon yn gŵyn faleisus), ond teimlai ymatebwyr yn bennaf nad oes gan bobl anabl yr amser i fynd ar drywydd cwynion oni bai eu bod yn ddilys.
- Roedd siopwyr cudd neu siopwyr dirgel yn awgrym arall ar gyfer system adborth; beth bynnag oedd y system a ddewiswyd, roedd pawb yn cytuno bod angen i hyn ddigwydd yn rheolaidd, nid unwaith yn unig i gyflawni eu

sgôr nod barcud 'achrededig'. Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn teimlo'n rhy swil i wneud sylwadau cyhoeddus am leoliad fel unigolyn a enwir. Roedd yn well ganddyn nhw ffordd ddiennw o roi adborth. Mae rhai pobl eisoes wedi ymgymryd â rolau siopwr dirgel mewn lleoliadau'r celfyddydau neu ddiwydiadau cerddoriaeth fyw. Yn anffodus, mae eu profiad o godi unrhyw bryderon neu fylchau yn y gwasanaeth wedi'i anwybyddu i raddau helaeth, gyda staff Blaen y Tŷ yn aml yn dweud 'trafodwch y mater gyda'r rheolwyr' (pwy bynnag ydyn nhw?).

- Mae grwpiau ffocws defnyddwyr yn awgrym arall ar sut i reoli adborth effeithiol. Gellid ailadrodd y modelau a ddefnyddir yn y GIG ar gyfer adborth cymunedol cleifion lleol ar gyfer y sefydliadau'r celfyddydau a threftadaeth ddiwylliannol; ond nid oedd yn eglur pwy fyddai'n rheoli'r rhain. Ond byddai'r cysyniad o ddod ynghyd fel grŵp o bobl anabl i drafod materion ar y cyd neu glywed sylwadau eraill gyda lleoliad neu Amgueddfa Cymru yn golygu bod pobl yn cael cysur o wybod bod pobl yn gwrando arnynt, o leiaf.
- Mae angen herio agwedd ddiwylliannol rhai lleoliadau ac Amgueddfa Cymru, mae rhai wedi dadlau serch hynny. Maent yn teimlo nad oes dim yn digwydd neu'n newid oni bai eu bod yn gwneud cwyn ffurfiol, ac yn aml yn uwchgyfeirio'r gŵyn at gyllidwr neu wleidydd lleol, cyn iddynt gael ymddiheuriad. Cysylltu cyllid ag adborth cwsmeriaid fydd yr unig ffordd o weld newid sylweddol mewn gwirionedd. Yn fyr, mae rhai wedi dadlau o blaid dull 'enwi a chodi cywilydd'.
- Mae darparu adborth yn anodd i rai pobl anabl, ond pe bai gan leoliadau system raddio syml y gallent dicio, byddent yn cael llawer mwy o adborth, yn enwedig gan bobl niwroamrywiol.
- Os yw pobl anabl eisiau trafod mater gydag ymweliad blaenorol, dylid cynnig y cyfle iddynt gwrdd â pherson wyneb yn wyneb (rheolwr o ddewis) gan fod rhai yn dweud nad ydynt bellach yn trafferthu anfon sylw neu gŵyn mewn e-bost oherwydd nid ydynt yn cael ymateb. Mae'r mater hwn wedi'i gysylltu'n agos â hyfforddiant staff (a drafodir nesaf) oherwydd os nad yw aelod o staff y lleoliad wedi cael hyfforddiant priodol, yn aml maent yn gwrando ond yn methu â deall yr adborth a roddir iddynt. Fodd bynnag, roedd pobl eraill yn teimlo ei bod yn bwysig e-bostio bob amser yn ogystal â siarad ar y ffôn neu wyneb yn wyneb oherwydd fel arall maent yn pryderu nad oes cofnod o'r sgwrs. I bobl ag amhariad ar y golwg, y gallu i siarad ar y ffôn oedd eu blaenoriaeth uchaf.
- Trafodwyd yn fanwl sut i ddwyn lleoliadau a sefydliadau eraill a ariennir yn gyhoeddus, megis Amgueddfa Cymru, i gyfrif. Roedd cefnogaeth sylweddol i'r cysyniad o gael person neu sefydliad arall, ar wahân i'r lleoliad, i allu mynd iddo os nad oeddent yn fodlon â'r ymateb. Ar ben hynny, pe bai'n rhaid i leoliadau gyhoeddi eu polisïau mynediad yna gall pobl anabl eu dwyn i gyfrif yn haws. Teimlai rhai y dylai Cymdeithas Celfyddydau Cymru hefyd fod yn rhan o'r system adborth hon gan eu bod yn ariannu'r lleoliadau yn uniongyrchol. Mae p'un a yw hyn yn adolygu

perfformiad cwsmeriaid gwirioneddol yn erbyn polisïau cyhoeddedig neu a yw'r adolygiad yn gysylltiedig â'u cyllid yn fater i'w drafod ymhellach.

- Yn olaf, bu rhai ymatebwyr yn trafod pryd y dylent roi adborth cadarnhaol, yn enwedig pan mai'r hyn y mae'r lleoliad wedi'i wneud mewn gwirionedd yw darparu lefel dderbyniol o wasanaeth. Roedd llawer o enghreifftiau o hyn, er enghraifft ar gyfer ymatebydd ag amhariad ar y golwg a ddywedodd, *"Dw i hefyd yn teimlo fy mod yn canmol pobl am fy mod yn gallu cerdded i mewn i theatr, dw i'n eistedd, dw i'n gwylïo drama a dw i'n cael cymorth i adael a dyna'r cyfan sydd wedi digwydd a dyna ddylai ddigwydd. Ond dw i'n teimlo y dylwn i fod yn ddiolchgar fy mod i wedi cael noson braf. Ni ddylai fod yn wir fod angen i mi deimlo dyfnder o ddiolchgarwch, dylai ddigwydd fel norm. Dim ond yr hyn sy'n safonol i'w wneud maen nhw wedi'i wneud mewn gwirionedd"*. Mae rhai ymatebwyr wedi ychwanegu eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gorfodi i ganmol staff ochr yn ochr â chodi pryderon neu mae canfyddiad mai pobl anabl yn unig sy'n cwyno. Maent yn credu bod y canfyddiad hwn yn anghywir, ond ar yr un pryd yn gwrthwynebu gorfod canmol staff, yn syml, am wneud eu gwaith yn gywir.
- Cafwyd sawl trafodaeth hefyd ynghylch sut i roi gwybod bod y staff wedi darparu gwasanaeth cwsmeriaid da iawn. Awgrymiadau megis cardiau diolch, enwi'r aelod o staff fel y gellir eu hadnabod yn gyhoeddus, e.e. 'Gweithiwr Blaen y Tŷ y mis' neu ysgrifennu i hysbysu rheolwyr y lleoliad.
- Mae'r mater hwn yn amlwg yn bwynt sensitif iawn i bobl anabl. Yn rhesymegol, mae'r rhan fwyaf o'u hadborth i leoliadau ac Amgueddfa Cymru yn mynd i fod i godi pryderon a thynnu sylw at adegau pan nad yw'r gwasanaeth y maent wedi'i dderbyn, yn eu barn nhw, wedi bod o safon 'gofynnol' derbyniol. Nid yw'r ymddygiad hwnnw'n wahanol i unrhyw un arall. Meddyliwch am yr e-byst diflas rydyn ni'n eu derbyn drwy'r amser, yn gofyn i ni raddio ein profiad prynu. Rydym yn annhebygol o ymateb oni bai ein bod yn anfodlon ar brofiad ein cwsmeriaid. Felly ni ddylai lleoliadau ddisgwyl cael diolch gormodol am ddarparu lefel foddhaol o wasanaeth cwsmeriaid i bobl anabl, a dylent ragweld y bydd y rhan fwyaf o sgysïau adborth yn aml yn canolbwyntio ar wasanaeth cwsmeriaid gwael.

5. Hyfforddiant staff

- Cyflwyniad: Mae pawb yn cytuno bod hyfforddiant staff yn hanfodol. Y mater yw pa lefel ac amllder sy'n ddigonol? Hefyd beth ydyn ni'n ei olygu wrth hyfforddiant? Hyfforddiant cydraddoldeb anabledd neu hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd? Hyfforddiant arbenigol seiliedig ar fynediad i'r celfyddydau neu hyfforddiant penodol yn y sector anabledd fel anabledd dysgu, awtistiaeth neu hyfforddiant ymwybyddiaeth B/byddar neu'r golwg? Cyrsïau byr neu raglenni achrededig? Hyfforddiant untro pan fydd person yn dechrau swydd mewn lleoliad neu Amgueddfa Cymru neu'n cael ei ddiweddarun flynyddol neu bob 6 mis? A oes rhaid i bob aelod o staff

wneud yr hyfforddiant neu wneud yr un hyfforddiant, neu a ddylai staff Blaen y Tŷ a staff eraill sy'n delio â chwsmeriaid orfod gwneud hyfforddiant mwy dwys na rolau eraill?

- Mae ceisio gosod rhwystr ar yr hyn sy'n gyfystyr â pherthynas onest rhwng lleoliad y celfyddydau neu Amgueddfa Cymru a phob person anabl yn hynod o anodd. Mewn gwirionedd dim ond dros amser a thrwy ddeialog wirioneddol y gellir cyflawni hyn. Ac eto nid yw'n afresymol ei gwneud yn ofynnol i leoliadau'r celfyddydau ac Amgueddfa Cymru gyhoeddi datganiadau sy'n datgan eu hymrwymiad i fod yn agored, yn onest ac yn ddidwyll, o ran eu gwasanaethau i bobl anabl. *Ychydig neu ddim cost.*
- Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi cyhoeddi gwybodaeth ar sut y dylai staff y GIG ymddwyn mewn ffordd agored a gonest gyda chleifion a'r rhai sy'n agos atynt. Mae cod Gwasanaeth Sifil y DU yn cynnwys uniondeb a gonestrwydd o fewn ei 4 egwyddor gyhoeddedig. Mae'n rhaid i'r rhai a benodir i rolau Cyhoeddus gytuno i ddilyn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (neu Nolan).
- Nid oes angen i'r datganiadau fod yn rhy gymhleth, ond dylent adeiladu ar bolisiâu a datganiadau presennol ynghylch cydraddoldeb anabledd a mabwysiadu'r model cymdeithasol o anabledd. Gallent fod mor syml â "Rydym yn ymrwymo i fod yn gwbl agored a gonest yn ein holl

gyfathrebu, a rhyngweithiadau eraill, gyda phobl anabl wrth ddarparu ein gwasanaethau.”

Ychydig neu ddim cost.

3. Mannau tawel/diogel ar wahân yn Amgueddfa Cymru a lleoliadau ar gyfer pobl anabl

- Mae ehangu creu digwyddiadau hamddenol ac amgylcheddau 'diogel' yn ddarpariaeth y dylai pobl anabl nawr ddisgwyl i leoliadau'r celfyddydau ac Amgueddfa Cymru ei darparu, pryd bynnag y bo modd.
- Fodd bynnag, ni all Amgueddfa Cymru a lleoliadau bob amser greu mannau 'diogel' ar wahân ar gyfer eu cwsmeriaid anabl, os yw eu cyfleusterau adeiladu yn sefydlog ac yn gyfyngedig. Felly mae angen i'r ddarpariaeth safonol ofynnol lywio sefyllfa sy'n gweithio'n gyfartal i bobl anabl a lleoliadau ac Amgueddfa Cymru.
- Yn ddelfrydol, cynigir y dylai Amgueddfa Cymru geisio nodi mannau addas yn eu hadeiladau a all ddod yn fan 'diogel' dynodedig, naill ai drwy'r amser neu os yw hynny'n anymarferol, yna man y gellir ei ddynodi'n fan 'diogel' yn ystod diwrnodau neu gyfnodau o amser llai prysur. Dylai pobl anabl allu gweld yn gyflym ac yn hawdd pa mor brysur yw lleoliad neu ddigwyddiad Amgueddfa Cymru penodol ar unrhyw adeg ac yna penderfynu a fydd eu profiad yn gadarnhaol ar sail y wybodaeth honno. Dylai hyn fod yn gymharol syml i'w reoli o ystyried bod Google wedi cyhoeddi yn 2020 eu bod yn ehangu eu gwybodaeth brysurdeb byw y gellir ei harddangos yn Google Maps hyd yn oed pan nad yw pobl yn chwilio am unrhyw le penodol. Ni ddylai fod yn rhy anodd i Amgueddfa Cymru bostio dolen fyw o fapiau Google sy'n dangos prysurdeb.
Cost isel neu efallai y bydd angen adnoddau ychwanegol.
- Ar gyfer lleoliadau'r celfyddydau mae'r mater ychydig yn wahanol gan y dylen nhw wybod pryd maen nhw'n mynd i gael perfformiad prysur, a phryd maen nhw wedi amserlennu unrhyw berfformiadau hamddenol. Ar gyfer perfformiadau prysur, credwn y dylai lleoliadau bob amser geisio darparu man 'diogel', tawel i'w cwsmeriaid anabl, ac os nad yw hyn yn bosibl dylai'r lleoliad roi cyhoeddusrwydd i'r diffyg gwasanaeth hwn fel rhan o'r wybodaeth hygyrch ar gyfer y digwyddiad hwnnw.
Ychydig neu ddim cost.

4. Systemau adborth pwrpasol

- Mae'r mater hwn yn gysylltiedig â gonestrwydd ac argaeledd gwybodaeth hygyrchedd gywir, ond mewn ffyrdd eraill mae'n bwnc ar wahân.
- Fel safon ofynnol o wasanaeth, rhaid ei gwneud yn ofynnol i holl Amgueddfa Cymru a lleoliadau'r celfyddydau roi system adborth ar waith a chyhoeddi'r hyn y dylai unrhyw berson anabl ei ddisgwyl o ran gweithdrefnau a chyfathrebu. Rydym yn cydnabod y bydd gan y rhan fwyaf o Amgueddfa Cymru a lleoliadau wahanol amgylcheddau gweithredu

a systemau ac felly nid yw un ateb sy'n addas i bawb, yn yr achos hwn, yn ymarferol.

- Er hynny, mae mynnu bod gan bob lleoliad ac Amgueddfa Cymru system adborth gyhoeddedig yn deg ac yn realistig ar gyfer safon ofynnol. Nid yn unig y bydd hyn o fudd i bobl anabl, ond bydd o fudd i bob cwsmer; o ran gwybod sut i roi eu hadborth, pryd y dylent ddisgwyl ymateb, pwy fydd yn ymdrin ag unrhyw adborth neu gŵyn, ac a ddylent ddisgwyl unrhyw gamau gweithredu dilynol ai peidio.

Ychydig neu ddim cost.

- Byddai cyflwyno gofyniad o'r fath yn cael gwared ar lawer o rwystredigaethau pobl anabl, wrth roi adborth, gan eu bod yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu neu eu bod yn cael eu gweld fel rhai sy'n cwyno bob amser, pan fyddant weithiau am awgrymu newidiadau a allai wella'r gwasanaeth i bob person anabl.
- Trafodir y mater ehangach o sut mae unrhyw system adborth yn gysylltiedig ag unrhyw gynllun nod barcud yn nes ymlaen.

5. Hyfforddiant staff

- Mae cytundeb llwyr fod hyfforddiant staff i bawb yn elfen hanfodol o wella profiad cwsmeriaid anabl o'r ddau leoliad ac Amgueddfa Cymru a phobl anabl yn gyffredinol. Ac eto nid oes llawer o gytundeb ynghylch pa lefel, amllder yr hyfforddiant a phwy ddylai gael eu hyfforddi dylai ddod yn safon ofynnol.

- Fodd bynnag, mae rhai agweddau'n glir. Mae'n rhaid i bob aelod o staff, boed yn gyflogedig neu'n wirfoddolwr, sy'n gweithio mewn lleoliad Amgueddfa Cymru neu leoliad y celfyddydau, beth bynnag fo'u rôl neu lefel hynafedd, gael hyfforddiant sefydlu o leiaf. Dylai hyn hefyd gynnwys contractwyr rheolaidd a gwasanaethau wedi'u contractio a'u his-gontractio e.e. diogelwch, glanhau, bariau a manau arlwyo.

Angen adnoddau ychwanegol.

- Nid yw gweithwyr llawrydd wedi'u cynnwys yn y gofyniad hwn ar hyn o bryd gan ein bod yn credu bod hwn yn fater mwy cymhleth a bod angen ei ystyried ymhellach. Er enghraifft byddai'n ymddangos yn afresymol disgwyl i sefydliad y celfyddydau hyfforddi gweithiwr llawrydd am gontract 1 diwrnod. Fodd bynnag, i'r gwrthwyneb, mae'n ymddangos yn deg y dylai unrhyw un sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer lleoliad y celfyddydau neu Amgueddfa Cymru gael ei hyfforddi i lefel ddigonol o ymwybyddiaeth a darparu gwasanaethau.

- Rhaid i bawb sy'n gweithio yn Amgueddfa Cymru neu mewn lleoliadau (fel y rhestrir uchod) hefyd ddiweddarau'r hyfforddiant hwnnw bob blwyddyn.

Angen adnoddau ychwanegol.

- O safbwynt pobl anabl, mae ein hymchwil yn dweud yn unfrydol bod yn rhaid i'r holl hyfforddiant a wneir gael ei ddarparu gan bobl anabl, sydd â phrofiadau uniongyrchol o fywyd h.y. rhaid i'r hyfforddiant fod yn

hyfforddiant cydraddoldeb anabledd nid hyfforddiant seiliedig ar ymwybyddiaeth anabledd.

Angen adnoddau ychwanegol.

6. Rhaglennu digwyddiadau (gan gynnwys amseru ar gyfer lleoliadau'r celfyddydau)

- Mae'r pwnc hwn yn sbarduno rhai ymatebion cryf iawn gan bobl anabl. Ac eto, mae eu ceisiadau yn ei gylch wedi ysgogi ymatebion cryf gan leoliadau'r celfyddydau, llai felly gan Amgueddfa Cymru.
- Yn fyr; mae angen mynd i'r afael â dau fater o safbwynt pobl anabl. Yn gyntaf, ni ddylai lleoliadau raglennu digwyddiadau ar gyfer pobl anabl fel rhai sy'n cael eu cynnal yn ystod y prynhawn, oni bai eu bod wedi ymgynghori'n ffurfiol â nifer o sefydliadau anabledd lleol, a bod y sefydliadau hyn wedi cytuno mai amseriad yn y prynhawn yw'r opsiwn gorau.

Cost isel.

- Yn ail, ni ddylai lleoliadau wahanu rhwng perfformiadau hygyrch ar ddiwrnodau gwahanol, e.e. rhaglennu sioe gyda dehongliad BSL un noson a thaith gyffwrdd a sioe sain-ddisgrifiad noson arall. Yn aml mae gan bobl anabl ffrindiau neu gydweithwyr anabl eraill (gydag anghenion mynediad gwahanol) ac maen nhw wedi mynegi'n gryf eu rhwystredigaeth am fethu â mynychu gyda'i gilydd, neu hyd yn oed os gallant fynychu gyda'i gilydd, methu eistedd gyda'i gilydd. Os yw sioe yn hygyrch, ac yn hygyrch mewn sawl ffordd, yna fel safon ofynnol dylai pob math o wasanaethau hygyrch fod ar gael ar yr un pryd a dylai cwsmeriaid anabl ddisgwyl gallu eistedd gyda'i gilydd (mewn lleoliad addas ar gyfer eu hanghenion mynediad cyfunol). Os nad yw'r lefel hon o wasanaeth ar gael yna rhaid i leoliadau sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn hawdd i bob cwsmer anabl posibl cyn iddynt archebu eu tocynnau. Y gwasanaeth lleiaf a ddisgwylir yw anelu at beidio â gwahanu darpariaeth nac ymwelwyr. Dylid anelu at gynllunio pob digwyddiad a gweithgaredd gyda'r hyblygrwydd ehangaf o ran gwasanaethau mynediad fel llinell sylfaen.

Angen adnoddau ychwanegol.

Dylai'r un peth fod yn wir am Amgueddfa Cymru wrth raglennu digwyddiadau cymorth hygyrch penodol, h.y. dylid anelu at gael gwasanaethau cwbl integredig sy'n darparu ar gyfer yr holl anghenion mynediad ar yr un pryd.

Cost isel.

7. Ymgorffori meddylfryd dylunio ar gyfer pobl anabl yn yr holl waith creu cynnwys creadigol, comisiynu ac arweinyddiaeth a datblygu sefydliadol:

- Mae'r adroddiad hwn a'r Isafswm Safonau Gwasanaethau a argymhellir ar gyfer pobl anabl yn canolbwyntio'n bennaf ar sut y gellir gwella gwasanaethau presennol er mwyn cynyddu hygyrchedd. Fodd bynnag, o ystyried mai ein nod hefyd yw symud i ddull cyfannol o ymdrin â

chynwysoldeb a hygyrchedd, rydym bellach yn teimlo mai dyma'r amser iawn i gyflwyno'r gofyniad i leoliadau'r celfyddydau (a thrwy hynny, yr holl gynhyrchwyr a chomisiynwyr creadigol) ac Amgueddfa Cymru i fabwysiadu methodoleg meddwl dylunio i bob agwedd ar greu cynnwys eu gwasanaethau diwylliannol.

- At hynny, mae'n amlwg y dylai'r cyfrifoldeb perchenogaeth dros fynediad ac ehangu ymgysylltu fod yn rhan o sefydliad ac mae'n hanfodol bod hyn wedi'i wreiddio'n llwyr yn arweinyddiaeth sefydliadau'r celfyddydau unigol ac arweinyddiaeth Amgueddfa Cymru a chael ei ystyried a'i gynnwys ar y camau cynnar o gynllunio a datblygu strategaeth ar gyfer y sefydliadau hyn. Unwaith y byddant wedi'u gwreiddio ar lefel arweinyddiaeth, yna dylid cefnogi holl swyddogaethau creadigol a gwasanaeth y sefydliadau hyn i fabwysiadu meddylfryd dylunio yng ngwasanaethau a gweithgareddau creadigol y dyfodol.
- Mabwysiadu'r egwyddorion allweddol wrth feddwl am ddylunio: empathi, diffinio, dyfeisio, prototeip a phrofi – mewn perthynas â darparu gwasanaethau y celfyddydau a threftadaeth ddiwylliannol a chynnwys creadigol i bobl anabl yn golygu y dylai sector y celfyddydau ac Amgueddfa Cymru allu deall cwsmeriaid anabl yn well, herio rhagdybiaethau, ailddiffinio problemau a chreu atebion arloesol yn hytrach na'r model presennol lle eir i'r afael â rhwystrau i fynediad ar ôl dyfeisio digwyddiad neu arddangosfa.

Angen adnoddau ychwanegol

Rhaid i Amgueddfa Cymru a lleoliadau'r celfyddydau (gan gynnwys y cynhyrchwyr y maent yn eu comisiynu neu'n eu harchebu) allu dangos eu bod yn dyfeisio eu cynnwys newydd gan ddefnyddio'r fethodoleg gwbl gynhwysol hon. Dylai hyn ddod yn amod ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer grantiau cynhyrchu creadigol. Drwy droi'r fethodoleg gynhyrchu o wneud gwaith presennol yn fwy hygyrch i fframwaith lle mae hygyrchedd wedi'i ymgorffori o'r cychwyn cyntaf wrth ddyfeisio cynnwys creadigol newydd, yn y pen draw bydd angen ymyriadau llai adweithiol (fel y rhestrir yn ein Safonau Gofynnol eraill) i gynyddu hygyrchedd. Neu mewn geiriau eraill bydd Amgueddfa Cymru a sector y celfyddydau yn gallu lleihau eu dibyniaeth ar (ail)gynllunio gwasanaethau i wella ei gwasanaethau i bobl anabl oherwydd bydd meddwl dylunio hygyrch wedi dod yn arferol wrth greu unrhyw ddigwyddiadau neu wasanaethau celfyddydol neu dreftadaeth ddiwylliannol newydd. Symud o wasanaethau adweithiol i wasanaethau sydd wedi'u cynllunio'n rhagweithiol.

Angen adnoddau ychwanegol

- Mae'n galonogol clywed bod Amgueddfa Cymru eisoes yn bwriadu mabwysiadu methodoleg meddwl dylunio cyflawn ar gyfer eu digwyddiadau a'u harddangosfeydd yn y dyfodol.

8. Sut i sicrhau gwasanaethau cwsmeriaid o ansawdd uchel?

- Mae'n anodd diffinio safon ofynnol o ddarpariaeth gwasanaeth a fyddai'n dileu'n gyfan gwbl rhai staff nad ydynt yn helpu pobl anabl.
- Serch hynny, dylai cyflwyno systemau adborth teg a chyhoeddus ar gyfer pobl anabl a'r gofyniad gorfodol i bob lleoliad a staff Amgueddfa Cymru ymgymryd â hyfforddiant cydraddoldeb anabledd blynyddol leihau'r broblem hon yn sylweddol.

Angen adnoddau ychwanegol.

9. Pa rôl, os o gwbl, ddylai fod gan leoliadau ac Amgueddfa Cymru o ran darparu trafndiaeth?

- Yn realistig, o ystyried y lefelau presennol o gyllid i'r celfyddydau ac Amgueddfa Cymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu lefel ofynnol o wasanaethau cysylltiedig â thrafnidiaeth i bobl anabl, mae hyn y tu hwnt i'n hargymhellion presennol.

Yn hytrach, rydym yn cynnig, serch hynny, bod gwybodaeth gyfredol am bob agwedd ar gyrraedd lleoliad, ac o leoliad, neu Amgueddfa Cymru ar gael yn hawdd fel rhan o'r systemau gwybodaeth hygyrchedd ehangach a'r codau QR, gwybodaeth megis pa wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus sydd ar gael, pa mor agos ydynt at y lleoliad ei hun a pha amserau y maent yn gweithredu? Yn aml mae trafndiaeth gyhoeddus yn stopio cyn i berfformiad gyda'r nos ddod i ben, felly mae cwestiynau fel, a oes safle tacsis gerllaw, a all tacsis stopio'n union y tu allan i'r lleoliad, sut ydw i'n archebu tacsï ymlaen llaw? Dylai cwestiynau eraill megis, a oes lleoedd parcio penodol i bobl anabl, ac os felly, sut y gallaf archebu'r rhain ymlaen llaw gyda fy nhocynnau sioe i gyd gael eu hateb yn glir a'u diweddarau'n rheolaidd. Nid yw sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn haws yn golygu y gofynnir i'r lleoliad neu Amgueddfa Cymru ddarparu mwy o wasanaethau trafndiaeth i bobl anabl, ond gofynnir i leoliadau ymchwilio i hyn ac yn hollbwysig, cadw'r wybodaeth hon yn gyfredol ar gyfer digwyddiadau a pherfformiadau penodol. Ni ddylai fod yn anodd cysylltu lleoliad neu wefan gwybodaeth teithio Amgueddfa Cymru â diweddariadau data teithio byw, megis Trafnidiaeth Cymru. Mae hyn yn lleihau'r cyfrifoldeb ar y person anabl i orfod rheoli'r agwedd hon ar eu hymweliad. *Ychydig neu ddim cost.*

10. Atgoffa pobl nad ydynt yn anabl nad yw pob anabledd yn weladwy

- Gall hyn ymddangos yn fater cymdeithasol ehangach, na ddylid ei roi ar leoliadau ac Amgueddfa Cymru, ond credwn y gallai ychydig o gamau gweithredu syml gael effaith fawr ar wella dealltwriaeth pobl nad ydynt yn anabl o anghenion pobl anabl.

Er enghraifft, pe bai lleoliadau ac Amgueddfa Cymru yn dangos yn glir bosteri neu sgriniau digidol sy'n dweud "Nid yw Pob Anabledd yn Weladwy" byddai hynny'n fan cychwyn safonol o leiaf. Byddai cynnal fideo byr neu wneud cyhoeddiad cyhoeddus ar ddechrau sioe, sy'n esbonio'r gwasanaethau/nodweddion hygyrchedd ar gyfer y diwrnod/sioe neu'r

cyfleuster penodol hwnnw yn helpu gwybodaeth ehangach ynghylch pam mae angen lefelau mor amrywiol o gymorth ar bobl anabl. At hynny, byddai cyhoeddiad ar ddechrau pob digwyddiad yn nodi'n glir pa wasanaethau mynediad i'r anabl sy'n cael eu darparu yn helpu i roi sicrwydd i bobl anabl sy'n mynychu bod eu hanghenion mynediad yn cael eu darparu. Dylai'r holl enghreifftiau hyn ddod yn isafswm disgwyliadau gan unrhyw leoliad ac Amgueddfa Cymru wrth geisio mynd i'r afael â gwahaniaethu ac ableddiaeth.

Cost fach neu isel.

11. Polisïau prisio

- Fel y cytunwyd yn y cynllun cerdyn Hynt presennol ac fel y cynigir ym menter Cerdyn Mynediad i'r Celfyddydau y DU, rhaid darparu pob tocyn cydymaith i bobl anabl yn rhad ac am ddim (gan gynnwys unrhyw ffioedd archebu). Rydym hefyd yn credu, mewn rhai amgylchiadau pan gaiff ei ddilysu, y dylid darparu mwy nag un tocyn cydymaith am ddim.
Cost isel.
- Safon ofynnol ychwanegol, ond cysylltiedig, yw na ddylai fod yn ofynnol i berson anabl brynu tocyn sy'n ddrytach na'r sedd neu'r lleoliad y mae wedi gofyn amdano, dim ond oherwydd bod y lleoliad yn gofyn iddo eistedd mewn rhan arall o'r awditoriwm, sy'n digwydd costio mwy na'r sedd y gofynnwyd amdani yn wreiddiol.
Cost isel.
- Dylid rhoi cyhoeddusrwydd clir i bolisïau ad-daliadau a dod o hyd iddynt yn hawdd cyn archebu tocyn, a'u cynnwys gyda system adborth ehangach. Ar ben hynny, rhaid rhoi ad-daliad tocyn llawn i bobl anabl os nad oedd rhyw agwedd ar y gwasanaethau mynediad a hysbysebwyd yn gweithio neu os nad oedd ar gael iddynt h.y. methiant i ddarparu gwasanaethau mynediad a addawyd ac a gytunwyd (yn amlwg mae angen gwirio hyn). Rhaid i leoliadau nid yn unig gynnig dewisiadau eraill megis credyd ar gyfer digwyddiad yn y dyfodol o dan yr amgylchiadau hyn.
Cost isel.

Dyfeisio system Nod Barcud yng Nghymru ar gyfer lleoliadau'r celfyddydau a gwasanaethau Amgueddfa Cymru

Gofynnwyd i ni ymchwilio i sut i ddyfeisio system Nod Barcud priodol ar gyfer lleoliadau'r celfyddydau ac Amgueddfa Cymru sy'n cwmpasu pob agwedd ar wasanaethau i bobl anabl yng Nghymru.

Roedd ein hymgyngoriad ar yr agwedd hon ar y briff wedi'i gyfyngu i bobl anabl a sefydliadau a arweinir gan anabledd yng Nghymru, a dadansoddiad o gynlluniau nod barcud tebyg y gellid eu mabwysiadu'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar gyfer cynllun Nod Barcud y celfyddydau yng Nghymru. Rydym yn gwbl ymwybodol bod angen cynnal sgysiau pellach gyda lleoliadau'r celfyddydau a'r sector celfyddydau ehangach, a bod angen i Gyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru drafod y canfyddiadau hynny gyda'u cyrff partner yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r argymhellion hyn yn fan cychwyn ar gyfer dyfeisio cynllun nod barcud llawn.

I ddechrau ar y gwaith cymhleth hwn rydym wedi rhannu ein hymchwil yn ddau llyn:

1. Yn bwysicaf oll, gofyn i bobl anabl beth ddylai cynllun Nod Barcud ei gynnwys yn eu barn nhw a sut y dylid ei reoli a'i asesu?
2. Adolygu cynlluniau Nod Barcud eraill, yn sectorau'r celfyddydau a threftadaeth ond hefyd ar draws sectorau eraill, i benderfynu a oes modelau y gallai Cymru seilio ei chynllun Nod Barcud arnynt?

Adborth gan bobl anabl:

- Cyflwyniad: Roedd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn croesawu'r syniad o greu system Nod Barcud y gall lleoliadau ac Amgueddfa Cymru geisio cael eu hachredu ar ei chyfer. Cafwyd argymhellion cyson bod unrhyw system yn gysylltiedig ag unrhyw systemau adborth a gynigir hefyd, gan gynnwys siopwr dirgel a phroses archwilio flynyddol.
- Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar sut y gallai'r system Nod Barcud edrych a pha mor hawdd yw hi i bobl anabl lywio'r sgorio.
- Ymhlith yr awgrymiadau mae
 - Byddai'n rhaid i'r system nod barcud gael ei rhedeg a'i monitro gan sefydliad anabledd annibynnol; rhaid cael cymhariaeth deg rhwng mannau cyfarfod a lleoliadau. Dylid hefyd ystyried maint/graddfa sefydliad. Dylid disgwyl i Amgueddfa Cymru neu Ganolfan y Mileniwm sicrhau gwell gwasanaethau mynediad na sinema annibynnol fach, er enghraifft. Er hynny, nid yw'r sinema fach annibynnol wedi'i heithrio rhag cyrraedd y safonau gofynnol o wasanaethau y mae'n rhaid i bob lleoliad y celfyddydau ac Amgueddfa Cymru eu cynnig.
 - Rhaid i lleoliadau ac Amgueddfa Cymru arddangos eu sgôr yn gyhoeddus, fel sy'n digwydd gyda sgoriau hylendid bwyd.

- Dim ond pobl anabl ddylai gael sgorio lleoliadau ac Amgueddfa Cymru.
- Mae'n rhaid cynnal archwiliadau blynyddol i gadarnhau eu sgôr neu, yn fwy radical, bod y cynllun Trip Advisor anabledd arfaethedig wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â graddfeydd.
- Dylai'r meini prawf gynnwys ymwybyddiaeth anabledd arbenigol o bob anabledd megis awtistiaeth, anabledau dysgu, amhariad ar y golwg, ac ati.
- Dylai'r meini prawf hefyd gynnwys lefelau'r hyfforddiant staff a gyflawnir, amllder a pha mor aml y mae angen i staff ddiweddarau eu hyfforddiant a nifer y bobl anabl a gyflogir gan Amgueddfa Cymru a'r lleoliad.
- Byddai sgôr uchaf yn golygu bod pobl anabl yn cymryd rhan weithredol mewn creu gwaith gyda'r lleoliad neu Amgueddfa Cymru, mae'n amlwg eu bod yn cael eu harwain gan anabledd wrth wneud penderfyniadau; rhaid iddynt gael sgorau uchaf o unrhyw system adborth a weithredir.
- Rhaid i sgorau nod barcud allu symud i lawr yn ogystal ag i fyny; os bydd perfformiad yn dirywio'n sylweddol yna fe all lleoliad neu Amgueddfa Cymru golli eu nod barcud yn gyfan gwbl.
- Dylai'r meini prawf weithio o fan caredig i'w gilydd a dylent geisio ymgorffori cyd-destun diwylliannol newydd o fewn y sgorio.
- Rhaid cytuno ar safonau cyffredin. Dylai'r cytundeb hwn gael ei arwain gan bobl anabl, ond rhaid iddo hefyd gynnwys lleoliadau a rhwydweithiau Amgueddfa Cymru megis Creu Cymru ac efallai Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru, ochr yn ochr â Chyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru.
- Dylid cynnwys sgôr hygyrchedd ar gyfer siopau, bariâu a bwytai a gwasanaethau masnachfrait eraill hefyd mewn unrhyw safle Nod Barcud cyffredinol. Os ydynt yn gwrthod cael eu hasesu yna dylai hynny eithrio unrhyw leoliad neu Amgueddfa Cymru rhag gwneud cais.
- Dylai'r cyfrifoldeb perchnogaeth am fynediad ac ehangu ymgysylltiad fod yn rhan o sefydliad a dylai hyn gael ei wreiddio'n llwyr yn arweinyddiaeth yr holl sefydliadau ac yna ystyried ei gynnwys yn y camau cynnar iawn o gynllunio a datblygu strategaeth.
- Roedd llawer o bobl eisïau meini prawf ar wahân ar gyfer cyfleusterau toiled.
- Roedd system sgorio yn defnyddio sêr yn cael ei ffafrio gan lawer yn lle aur, arian ac efydd; wrth gwrs mae pobl eraill yn hoffi'r cysyniad o weithio tuag at sgôr aur.
- Bydd yn rhaid i sefydliadau cyhoeddus fel Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru ac Amgueddfa Cymru gymeradwyo

system graddio Nod Barcud a gwobrwyo cyflawnwyr uchel gyda mwy o gyllid; o reidrwydd felly lleihau cyllid i berfformwyr gwael.

- Dylai'r sgorio ddangos i bobl anabl sut mae lleoliad yn gwneud mewn perthynas ag ystod o wasanaethau hygrychedd, e.e. gallent sgorio'n dda ar fynediad i gadeiriau olwyn, ond yn wael ar farchnata BSL. Byddai hynny'n helpu pobl anabl i wybod pa Amgueddfa neu leoliadau sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu ar gyfer eu hanghenion.

Cynlluniau Nod Barcud Eraill

Cefndir

Yn syml, mae nod barcud yn symbol a grëwyd gan sefydliadau ac a ddyfernir i ddarparwyr gwasanaethau a chynhyrchwyr sy'n nodi bod deiliad y nod barcud wedi cyrraedd ac yn cynnal y nodau barcud y cytunwyd arnynt i safonau cyffredin. Yr un mwyaf adnabyddus yw Nod Barcud BSI. Mae'n cadarnhau bod hawliad cynnyrch neu wasanaeth wedi'i brofi'n annibynnol a dro ar ôl tro gan arbenigwyr, sy'n golygu y gallwch ymddiried a chael hyder mewn cynhyrchion a gwasanaethau sydd wedi'u hardystio gan Nod Barcud. Mae nodau barcud eraill yn ymwneud yn fwy â sut mae cwmnïau'n cael eu rheoli a sut y gallant weithredu ar draws y byd a'r rhai mwyaf enwog yw ISO a'u cyfres 9000 o safonau.

Datblygu agweddau, polisiau ac arferion

Mae rhai nodau barcud yn ceisio rhoi sicrwydd bod agweddau, polisiau ac arferion y corff neu'r unigolyn daliannol yn gadarnhaol mewn perthynas â charfan benodol. Maent yn aml yn cael eu dyfarnu ar dair lefel gan ganiatáu i'r deiliad fynd ar daith a yrrir gan wobr:

- Gwobr Efydd

Mae'r lefel hon o ddyfarniad yn aml yn hunan-ardystiedig ac nid yw'n mesur/yn gofyn am unrhyw newid gwirioneddol, fodd bynnag, maent yn ddefnyddiol i gael pobl/sefydliadau ar yr ysgol newid gydnabyddedig honno.

- Gwobr Arian

Mae'r lefel hon o ddyfarniad yn aml yn gofyn am dystiolaeth bod polisiau da ar waith. Yn aml mae'n rhaid eu cyflwyno i'r corff dyfarnu i'w harchwilio. Er mwyn cynyddu llwyddiant, yn aml, mae cyrff dyfarnu yn awyddus i gynorthwyo drwy gynnig rhyw fath o ddal llaw.

- Gwobr Aur

Er mwyn cyflawni'r lefel hon o ddyfarniad, mae cyrff dyfarnu yn aml yn mynnu bod newidiadau mesuradwy yn y ffordd y mae'r sefydliad yn gweithredu ac effeithiau a chanlyniadau ei waith. Gall hyn gynnwys newidiadau i'w sylfaen cwsmeriaid, boddhad cwsmeriaid, demograffeg staffio, cynhwysiant yn cael ei wreiddio ar lefel gweithredol/sefydliadol, mynediad corfforol i wasanaeth, a mynediad at wybodaeth.

Mae'r math hwn o strwythur yn boblogaidd iawn ymhlith sefydliadau LHDTTC+ ac mae hefyd yn ffurfio strwythur cynllun tair haen Hyderus o ran Anabledd Llywodraeth y DU, cynllun sy'n cael ei wawdio'n fawr oherwydd ei ddiffyg bywiogrwydd a chyfranogiad gan bobl anabl.

Dyfarniadau targededig math swyddogaeth sengl

Mae rhai sefydliadau cyhoeddi nodau barcod yn cynnig nodau barcod gwahanol ar gyfer gwahanol swyddogaethau ac nid ydynt yn seiliedig ar egwyddor ysgol. Er enghraifft, mae gan Nimbus Disability dri dyfarniad CredAbility sy'n adlewyrchu nodau penodol:

- CredAble Provider: Mae'r nod barcod hwn wedi'i gynllunio i helpu i roi gwybod i gwsmeriaid anabl bod y deiliad yn fodlon ac yn gallu darparu gwasanaethau da i gwsmeriaid anabl.
- CredAble Access: Mae'r nod barcod hwn yn dynodi bod adeilad y mae gwasanaeth yn cael ei ddarparu ohono wedi'i asesu fel un sy'n bodloni safonau hygyrchedd craidd ar gyfer pobl anabl.
- CredAble Employer: Mae'r nod barcod hwn yn dynodi bod adeilad a ddefnyddir ar gyfer cyflogaeth staff wedi'i asesu fel un sy'n bodloni safonau hygyrchedd craidd ar gyfer pobl anabl.

Mae rhinweddau i'r dull hwn, yn enwedig pan gaiff ei reoli gan bobl anabl.

Sticer yn y ffenestr neu'r wefan. 'Sgoriau ar y drysau'

Gall rhai cynlluniau nod barcod fod yn arbenigol iawn ac weithiau'n lleol iawn. Er enghraifft, mae yna gynlluniau sy'n ceisio rhoi 'sgoriau ar y drysau' mewn siopau a bwytai, gyda system sgorio weithiau tra bod eraill yn dewis defnyddio symbolau sy'n cael eu deall yn dda mewn ffordd ddeuaidd. O ddefnydd cynyddol yw'r symbol ar gyfer deall dementia a dim ond trwy hyfforddiant y gellir ei gyflawni. Yn ddiweddar daethom o hyd i un system 'sgoriau ar y drysau' sy'n cyfuno symbolau deuaidd a sgôr 0-5. Roedd hynny'n ddryslyd iawn i ni ac yn sicr nid oedd yn briodol i lawer o bobl niwroamrywiol.



Yn gysylltiedig â chwaraeon

Mae llawer o gyrff chwaraeon wedi datblygu eu nodau barcud eu hunain i annog cyfranogiad trwy wneud i'w darpar gyfranogwyr deimlo na fyddant yn cael eu gwahaniaethu yn y gweithgaredd hwnnw ac y bydd eu hanghenion mynediad yn cael eu diwallu.

Mae Disability Bowls England a'u tîm mynediad anabledd wedi datblygu cynllun nod barcud sy'n ceisio rhoi sicrwydd (neu fel arall) i ddarpar gyfranogwyr unrhyw glwb bowlio y cânt eu trin yn dda a bod y lawntiau'n hygyrch, neu fel arall. Mae eu meini prawf yn cynnwys Cyfranogiad, Cyfathrebu, Gweithlu, Hygyrchedd Cyfleusterau, a Pholisïau a Gweithdrefnau. Wrth ddyfarnu, gallant ddefnyddio'r symbol ar eu holl gyfathrebu a marchnata

Mae Chwaraeon Cymru'n cynnal ei raglen datblygu anabledd sy'n cynnwys cynllun nod barcud sy'n nodi ymrwymiad i ddarparu cyfleoedd chwaraeon cynhwysol. Mae gan y rhaglen ddull pedair haen a fwriedir i annog a chefnogi cyflwyno cyfleoedd ym mhob rhan o chwaraeon a hamdden.

Nodau barcud yn seiliedig ar ddyfarniadau

Mae'r rhain yn aml yn cael eu cyflwyno mewn digwyddiadau cyffredinol sy'n canolbwyntio ar ddyfarniadau cydraddoldeb. Maent yn gynhennus gyda phobl anabl, yn enwedig lle ceir panel beirniadu, yn aml heb bobl anabl. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir am bob un o'r nodau barcud hyn sy'n seiliedig ar ddyfarniad. Er enghraifft, mae Cynllun Nod Barcud Cynhwysiant Swydd Warwick i'w weld yn fwy grymus a hefyd yn annog datblygiad enillwyr eu cynllun.

Dyfarniadau nod barcud yn seiliedig ar wyliau

Mae Attitude is Everything yn dyfarnu gwobr Aur, Arian, Efydd neu ddim gwobr i wyliau cerddoriaeth y DU, i gyd yn seiliedig ar feini prawf y maent wedi'u datblygu dros yr 20 mlynedd diwethaf.

Mae'r broses ymgeisio yn rymus a dim ond ar ôl i'r wyl gael ei chynnal y caiff ei dyfarnu, oherwydd bod aelodau anabl Attitude is Everything, yn mynychu'r wyl yn gyfrinachol, gan wirio'r cyfleusterau yn erbyn yr hyn a hawliwyd yn y cais.

Yna caiff y dyfarniad ei wneud, neu yn y rhan fwyaf o achosion, ni chaiff ei wneud. Yn y 23 mlynedd diwethaf, dim ond 16 o wyliau sydd wedi ennill dyfarniad Aur ac un ohonynt yw Pride Cymru. Mae llawer o bobl anabl yn ystyried mai dyma'r dyfarniad nod barcud anabledd gorau yn y DU. Efallai mai dyma'r model mwyaf cymwys i seilio cynllun nod barcud Cymru arno. Fodd bynnag, mae adolygu gŵyl yn llawer llai cymhleth nag adolygu rhaglen flynyddol gyfan o ddigwyddiadau mewn lleoliad y celfyddydau neu Amgueddfa Cymru, felly yn amlwg bydd angen gwneud mwy o waith i gwblhau unrhyw gynllun peilot arfaethedig.

Y mater dan sylw yw sut i gyfuno gwybodaeth statig ac asesiadau e.e. hygyrchedd seiliedig ar adeilad gyda gwybodaeth ddeinamig am hygyrchedd ar gyfer pob digwyddiad unigol ac anghenion gwahanol bobl anabl.

Aelodaeth Cerdyn Mynediad y DU / cerdyn math Hynt

Er nad yw'r rhain yn gynlluniau nod barcud mewn gwirionedd, maent yn cynnig rhai croesfannau. Er enghraifft, mae'r ddau yn nodi lleoliadau cysylltiedig a all ynddynt eu hunain greu hyder yn yr un ffordd ag y byddai nod barcud. Un o'u swyddogaethau mwyaf defnyddiol posibl yw eu rhestrau cynhwysfawr arfaethedig o ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal gyda darpariaeth mynediad ychwanegol. Os yw'n gwbl gyfredol, gallai hyn fod yn newidiwr gêm i lawer o bobl. Mae cynllun Cerdyn Mynediad i'r Celfyddydau y DU yn edrych ar ddatblygu nodau barcud hefyd ac mae cydweithio rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Celfyddydau Lloegr yn parhau.

Mae ACE wedi awgrymu grwpio unrhyw gynllun nod barcud yn 4 agwedd, ac rydym yn argymhell yr un dull yng Nghymru.

- Amgylchedd adeiledig
- Gwasanaethau cyfathrebu a digidol
- Profiadau ymwelwyr a gwasanaeth cwsmeriaid
- Rhaglennu, digwyddiadau a chomisiynu

Mae mabwysiadu'r pedwar categori hyn yn caniatáu i leoliadau'r celfyddydau ac Amgueddfa Cymru segmentu cynnydd yn erbyn y meini prawf nod barcud. Er enghraifft, os na all Amgueddfa Cymru sicrhau nod barcud uchel ar gyfer hygyrchedd ffisegol yn un o'u hen adeiladau Gradd 1, nid yw'n golygu na allant gyrraedd y safle uchaf yn y categorïau eraill.

Mae'r dull hwn yn cymryd i ffwrdd y cyfrifoldeb ar leoliadau'r celfyddydau ac Amgueddfa Cymru i fod bob amser yn pwyso am 'radd' uwch ar eu nod barcud, ac yn hytrach yn newid y cynllun i ganolbwyntio ar ddangos y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau hygyrch i bob person anabl ar hyd eu taith cwsmer, fel y gallant wneud penderfyniadau gwybodus am ymweld ag Amgueddfa Cymru neu leoliad y celfyddydau yn seiliedig ar y pedwar maen prawf nod barcud allweddol. Ni ddylai peidio â sgorio'r lefel uchaf ar gyfer hygyrchedd adeiladau olygu o reidrwydd nad yw'r sefydliad cyffredinol yn cyflawni arfer da ym mhob maen prawf hygyrchedd arall.

Adolygu safleoedd gwybodaeth mynediad sylfaen

Unwaith eto, nid yw'r rhain yn gynlluniau nod barcud mewn gwirionedd ond maent yn cynnig rhai croesfannau. Nodi lleoliadau hygyrch yw eu nod, yn debyg iawn i nodau barcud. Byddai ychwanegu safle sylwadau ar-lein, yn dangos barn pobl anabl, ochr yn ochr â chynllun nod barcud, yn cynnig rhai posibilïadau diddorol a deinamig.

Beth all fynd o'i le?

Mae cyrff dyfarnu yn ceisio sicrhau bod eu symbolau a'u cynnwys yn cael eu cydnabod i'r eithaf, heb y gydnabyddiaeth hon o'r farchnad bydd y nod barcod yn methu. Bydd hefyd yn methu os na fydd y garfan darged yn prynu i mewn i gynnwys y nod barcod, gan gredu nad oes ganddo fawr o werth a pherthnasedd i'w bywydau. Mae hyn yn arbennig o beryglus pan fydd y nod barcod yn cael ei ddylunio a'i reoli gan bobl heblaw ei garfan darged. Yn ogystal, gall nodau barcod llwyddiannus ddod yn amherthnasol yn llygad y cyhoedd - faint o bobl sydd bellach eisiau'r bathodyn a'r plac dyfarnu Buddsoddwyr mewn Pobl?

Ydy nodau barcod yn bwysig?

Pan fydd ganddynt adnabyddiaeth o'r farchnad, yn berthnasol, yn rhai y gellir ymddiried ynddynt, yn syml i'w defnyddio a bod ganddynt gynnwys y mae galw amdano - ydy. Gall eu bodolaeth fod â gwerth gwirioneddol - dywedodd 89% o bobl LHDTC y byddent yn teimlo'n fwy hyderus i gael mynediad at wasanaeth sy'n dangos nod barcod LHDT+, gan felly yrru cwsmeriaid at y rhai sy'n gwneud hynny.

Yr achos busnes dros fynediad a nodau barcod

Mae pobl yn tueddu i fynd i ddigwyddiadau gyda'i gilydd, felly mae effaith hygyrchedd gwael yn ymestyn ymhell y tu hwnt i effaith unrhyw berson anabl unigol. Yn ôl wearepurple.org.uk, mae 75% o bobl anabl a'u teuluoedd wedi penderfynu peidio â gwario eu harian gyda busnes yn y DU oherwydd hygyrchedd gwael neu wasanaeth cwsmeriaid. Fodd bynnag, mae busnesau a lleoliadau yn adnewyddu eu hunain yn gyson a heb ffordd syml o hysbysu pobl am unrhyw newidiadau mynediad, efallai na fydd pobl anabl a'u ffrindiau a'u teuluoedd byth yn dychwelyd i'r lleoliad sydd bellach yn hygyrch.

Canfu'r Fforwm The Business Disability fod £420 miliwn yn cael ei golli bob wythnos gan Fusnesau Stryd Fawr Prydain oherwydd diffyg hygyrchedd. Gelwir hyn yn "*Walkaway Pound*". Yn y cyfamser roedd gwefannau ac apiau anhygyrch yn cyfrif am £11.75 biliwn o refeniw a gollwyd yn 2016. Gelwir hyn yn "*Clickaway Pound*".

Y Ffordd ymlaen

Mae lleoliadau celf a diwylliant yn ceisio cynyddu eu sylfaen cwsmeriaid ac artistig. Os gallai nod barcod cadarn helpu i hwyluso'r angen hwn, yna dylid ei nodi, ei ddatblygu a'i roi ar waith.

Mae 23% o'r boblogaeth yn bobl anabl felly mae unrhyw hyrwyddwr, crëwr, cyflogwr neu fusnes sy'n methu â chyrraedd pobl anabl yn colli allan ar 23% o gynulleidfaoedd posibl a 23% o dalent artistiaid a gweithwyr posibl. Ni all unrhyw fusnes na diwylliant fforddio hyn. Nid yw hygyrchedd a chynhwysiant o

fewn celf a diwylliant yn rhywbeth y dylem ei wneud, ond yn rhywbeth y mae'n rhaid inni ei wneud.

Bydd unrhyw nod barcud defnyddiol sy'n seiliedig ar gelf a diwylliant yn gymhleth, gan fod cymaint o bethau i'w hystyried. Mae'n rhaid i unrhyw gynllun allu adlewyrchu anghenion cwsmeriaid tra'n gallu bod yn hylaw ar gyfer lleoliadau'r celfyddydau ac Amgueddfa Cymru. Yr ydym yn hyderus yn yr honiad, ar hyn o bryd, nad oes unrhyw gynllun DU yn bodoli sydd bron yn ddigonol ar gyfer y dasg beth bynnag, fodd bynnag, mae ei greu yn gynnig cwbl gyraeddadwy ac y mae mawr ei angen. Fodd bynnag, ein briff yn bennaf yw cynrychioli barn pobl anabl a'r neges a roddir yn glir i ni yw na ellir dyfeisio a rheoli unrhyw gynllun oni bai ei fod yn seiliedig yn bennaf ar asesiad ac adborth gan bobl anabl. Mae angen i'r cynllun osgoi effeithiau andwyol adolygiadau blinderus gan unigolyn, ond ni all lleoliadau nac Amgueddfa Cymru ddisgwyl gallu cymedroli adolygiadau nad ydynt yn eu paentio mewn ffordd gadarnhaol ychwaith. Rhaid i'r gwaith o ddatblygu a rheoli'r nod barcud gael ei arwain gan bobl â phrofiad o fywyd – defnyddwyr anabl ac artistiaid anabl, aelodau staff anabl mewn lleoliadau ac Amgueddfa Cymru.

Dull a argymhellir ar gyfer datblygu cynllun nod barcud mynediad anabledd yng Nghymru

1. Cadarnhau Safonau Gofynnol ar gyfer Gwasanaeth a Ddarperir i Bobl Anabl fel y cynigir yn yr adroddiad hwn; yn ychwanegol at y gofynion presennol ar gyfer mynediad corfforol.
2. Gofyn i leoliadau a safleoedd Amgueddfa Cymru gynnal archwiliadau hunanasesu yn erbyn y Safonau Gofynnol ar gyfer Gwasanaethau a Ddarperir i Bobl Anabl a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn gyntaf, gan gynnwys tystiolaeth bod y cyfrifoldeb perchnogaeth am fynediad ac ehangu ymgysylltiad yn gorwedd o fewn sefydliad unigol a phwysigrwydd bod yr egwyddor hon wedi'i gwreiddio'n llwyr yn arweinyddiaeth y sefydliad hwnnw a bydd yn cael ei chynnwys yng nghanau cynnar iawn y broses o gynllunio a datblygu strategaeth.
3. Dylai cyrraedd y Safonau Gofynnol ar gyfer Gwasanaethau a Ddarperir ddod yn ofyniad ar gyfer mynediad i'r cynllun nod barcud.
4. Yn ystod y flwyddyn gyntaf o gyflwyno'r Safonau Gofynnol hyn, dylai Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru ac asiantaethau cymorth eraill megis Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru, Creu Cymru a Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru recriwtio 'Grŵp Cyfeillion Beirniadol' cyflogedig o bobl anabl a fydd yn goruchwylio cyflwyno ac asesu'r cynllun nod barcud.
5. Bydd y 'Grŵp Cyfeillion Beirniadol' ei hun wedyn yn recriwtio tîm o 'siopwyr dirgel anabl' a'u rôl yw profi sgoriau hunanasesu lleoliadau'r celfyddydau sy'n dymuno ymuno â'r cynllun nod barcud. Rydym yn awgrymu hefyd y dylid cynnal asesiad hygyrchedd uniongyrchol o bob

safle Amgueddfa Cymru unwaith y bydd eu hunanasesiadau wedi'u cwblhau.

6. Bydd y 'Grŵp Cyfeillion Beirniadol' hefyd yn monitro adborth y maent yn ei dderbyn gan bobl anabl yn uniongyrchol, gan ganolbwyntio'n benodol os ydynt wedi cael adborth nad yw lleoliad neu safle Amgueddfa Cymru yn darparu gwasanaethau i'r asesiad nod barcud a nodwyd.
7. Rydym yn awgrymu y dylid mabwysiadu system goleuadau traffig i ddechrau ar gyfer y pedwar maen prawf asesu - lle mae coch yn golygu peidio â chyrraedd y safon ofynnol; mae ambr yn golygu cyrraedd y safon ofynnol yn rhannol; ac mae gwyrdd yn golygu cyrraedd y safon yn llawn. Dylai lleoliadau wedyn arddangos eu safonau yn gorfforol ac yn ddigidol fel y gall person anabl wirio ei hygyrchedd yn gyflym. Byddai sgôr coch yn dynodi'r angen i berson anabl ymchwilio ymhellach.
8. Unwaith y bydd y cynllun nod barcud cychwynnol a'r asesiadau wedi'u dilysu rydym yn awgrymu y dylid ystyried cynllun nod barcud mwy cymhleth sy'n gwobrwyo arfer gorau a gwell. Rhaid i'r rhain, wrth gwrs, gael eu dyfeisio a'u mesur gan bobl anabl.

Medi 2024